# Agenda - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Mai 2017

Amser: 13.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6362

SeneddMCD@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

13.15

Datganiad agoriadol y Cadeirydd

## 2 Ymchwiliad i sicrhau llais cryfach i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 10

13.15 (Tudalennau 1 - 5)

Paul Cairney, Athro Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus, yr Adran Hanes a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Stirling

**CLA(5)-14-17** - Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

14.15 (Tudalennau 6 - 9)

**CLA(5)-14-17 - Papur 1** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**SL(5)105 – Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2017**

**SL(5)106 – Gorchymyn Adeiladau Rhestredig (Gwaith Brys) (Cyfradd Llog ar Dreuliau) (Cymru) 2017**

**SL(5)107 – Rheoliadau Henebion Hynafol (Hawliadau am Ddigolllediad) (Cymru) 2017**

**SL(5)108 – Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) 2017**

**SL(5)109 – Rheoliadau Henebion Hynafol (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Cymru) 2017**

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

14.20

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**SL(5)110 – Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adolygu Penderfyniadau Rhestru) (Cymru) 2017**

(Tudalennau 10 – 33)

**CLA(5)-14-17 – Papur 2** – Rheoliadau
**CLA(5)-14-17 – Papur 3** – Memorandwm Esboniadol
**CLA(5)-14-17 – Papur 4** – Adroddiad

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.7

Dim gweithdrefn

**SL(5)104 – Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru**

(Tudalennau 34 – 70)

**CLA(5)-14-17 – Papur 5** – Cod Ymarfer
**CLA(5)-14-17** – **Papur 6** – Adroddiad

## 6 Papur i'w nodi

**Gohebiaeth gan Bwyllgor Deddfwriaethol Materion Cyfreithiol a Chyfansoddiadol Senedd Awstralia**

(Tudalennau 71 – 73)

**CLA(5)-14-17 – Papur 7** –Llythyr gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaethol Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Senedd Awstralia

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

14.25

## 8 Ymchwiliad Llais Cryfach i Gymru: trafod y dystiolaeth

## 9 Bil y Diddymu Mawr: Trafodaeth

14.30 (Tudalennau 74 – 86)

**CLA(5)-14-17** – Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil
**CLA(5)-14-17 – Papur 8** - Ymateb y Pwyllgor i Bwyllgor Gweithdrefn Tŷ'r Cyffredin: Bil y Diddymu Mawr

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3

# Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir

22 Mai 2017

## SL(5)105 – Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012.

Mae rheoliad 2 yn disodli'r gofyniad bod cais am gydsyniad adeilad rhestredig yn dod gyda datganiad dylunio a mynediad. Yn lle hynny, bydd yn rhaid cyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gyda phob cais am gydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth. Mae hefyd yn ychwanegu at y ddarpariaeth bresennol ynghylch y ffurf a'r dull ar gyfer hawlio digolledid, i gynnwys cyfeiriad at hawliadau sy'n codi o dan adran 28B (digolledid am golled neu ddifrod a achoswyd gan warchodaeth interim) ac adran 44D (hysbysiadau stop dros dro: digolledu), ill dwy o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

**Fe'u gwnaed ar:** 4 Mai 2017

**Fe'u gosodwyd ar:** 8 Mai 2017

**Yn dod i rym ar:** Yn unol â Rheoliad 1(3)

## SL(5)106 – Gorchymyn Adeiladau Rhestredig (Gwaith Brys) (Cyfradd Llog ar Dreuliau) (Cymru) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae adran 54 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("Deddf 1990") yn galluogi awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru i wneud gwaith yr ymddengys iddynt ei fod yn angenrheidiol ar frys er mwyn diogelu adeiladau rhestredig.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r gyfradd llog ar dreuliau y caniateir i awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru eu hadennill o dan adran 55 o Ddeddf 1990 mewn perthynas â gwaith o'r fath.

**Deddf Wreiddiol**: Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990

**Fe'i gwnaed ar:** 4 Mai 2017

**Fe'i gosodwyd ar**: 8 Mai 2017

**Yn dod i rym ar**: 31 Mai 2017

## SL(5)107 – Rheoliadau Henebion Hynafol (Hawliadau am Ddigollediad) (Cymru) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Henebion Hynafol (Hawliadau am Ddigolledigad) (Cymru) 1991 at ddiben gweithredu newidiadau a wnaed i Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ("Deddf 1979") gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

**Deddfau gwreiddiol:** Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979; Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

**Fe'u gwnaed ar**: 4 Mai 2017

**Fe'u gosodwyd ar**: 8 Mai 2017

**Yn dod i rym ar**: 31 Mai 2017

# SL(5)108 – Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n berthnasol i adolygiadau a gynhelir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u penderfyniad i gynnwys heneb ar y gofrestr o henebion a lunnir ac a gynhelir ganddynt o dan adran 1 o Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979; neu, yn achos heneb a nodir ar y gofrestr honno drwy gyfeirio at fap a gynhelir gan Weinidogion Cymru, i wneud diwygiad sy'n ychwanegu at yr arwynebedd a ddangosir ar gyfer heneb ar y map hwnnw.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979

**Fe'u gwnaed ar:** 4 Mai 2017

**Fe'u gosodwyd ar:** 8 Mai 2017

**Yn dod i rym ar:** 31 Mai 2017

# SL(5)109 – Rheoliadau Henebion Hynafol (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Cymru) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig, ac ar gyfer rhoi'r cydsyniad hwnnw, gan gynnwys gweithdrefn symlach ar gyfer gwneud ceisiadau.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979

**Fe'u gwnaed ar:** 4 Mai 2017

**Fe'u gosodwyd ar:** 8 Mai 2017

**Yn dod i rym ar:** 31 Mai 2017

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Eitem 4.1

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 644 (Cy. 150)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adolygu Penderfyniadau Rhestru) (Cymru) 2017

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n berthnasol i adolygiadau a gynhelir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u penderfyniad i gynnwys adeilad ar restr a lunnir neu a gymeradwyir o dan adran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

Maent yn cynnwys, yn benodol, ddarpariaeth mewn perthynas â'r materion a ganlyn—

— Y dosbarthiadau o adolygiadau sydd i'w penderfynu gan berson penodedig yn hytrach na Gweinidogion Cymru, sail yr adolygiad, gofynion gweithdrefnol sy'n berthnasol i wneud cais a gofynion cysylltiedig (Rhan 2);

— Darpariaeth weithdrefnol sy'n berthnasol i'r graddau y cynhelir adolygiad ar sail sylwadau ysgrifenedig (Rhan 3);

— Darpariaeth weithdrefnol sy'n berthnasol i'r graddau y cynhelir adolygiad drwy wrandawiad (Rhan 4);

— Darpariaeth weithdrefnol sy'n berthnasol i'r graddau y cynhelir adolygiad drwy ymchwiliad lleol (Rhan 5);

— Materion atodol (Rhan 6); a

— Darpariaeth weithdrefnol sy'n berthnasol i wneud penderfyniad ar adolygiad (Rhan 7).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Asesiad Effaith a luniwyd ar gyfer Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn berthnasol ac ar gael oddi wrth: Gwasanaethau'r Amgylchedd Hanesyddol (Cadw), Llywodraeth Cymru, Plas Carew, Caerdydd, CF15 7QQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.cymru.gov.uk.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 644 (Cy. 150)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adolygu Penderfyniadau Rhestru) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mai 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *8 Mai 2017* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mai 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2D o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**1**) ac Atodlen 1B iddi, a'r pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 93 o'r Ddeddf honno ac sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

## RHAN 1

### Rhagarweiniol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adolygu Penderfyniadau Rhestru) (Cymru) 2017 a deuant i rym ar 31 Mai 2017.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1990 p. 9; mewnosodwyd adran 2D gan adran 24 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (dccc 4) ("Deddf 2016"). Mewnosodwyd Atodlen 1B gan adran 24 o'r Ddeddf honno ac Atodlen 2 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “adolygiad” (“*review*”) yw adolygiad a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 2D o Ddeddf 1990;

ystyr “ceisydd” (“*applicant*”) yw perchennog neu feddiannydd yr adeilad sy’n gwneud cais am adolygiad;

mae i “datganiad Gweinidogion Cymru ar yr adolygiad” (“*the Welsh Ministers’ review statement*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(1);

mae i “datganiad ymchwiliad” (“*inquiry statement*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 17(1)(a);

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

mae i “dyddiad dechrau” (“*starting date*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 6(1)(a);

ystyr “gwrandawiad” (“*hearing*”) yw gwrandawiad a gynhelir o dan adran 2D(5)(b) o Ddeddf 1990 (adolygu penderfyniadau rhestru penodol);

ystyr “materion penodedig” (“*specified matters*”), mewn perthynas ag adolygiad a gynhelir drwy wrandawiad neu ymchwiliad, yw’r materion a bennir gan y person penodedig i’w hystyried yn y gwrandawiad neu’r ymchwiliad;

ystyr “person â buddiant” (“*interested person*”) yw unrhyw berson, ac eithrio’r ceisydd, a hysbysir neu yr ymgynghorir ag ef o dan adran 2A o Ddeddf 1990 (dyletswydd i ymgynghori ar newidiadau penodol i restrau)(**1**) ynghylch cynnig Gweinidogion Cymru i gynnwys yr adeilad y mae adolygiad yn ymwneud ag ef ar restr;

ystyr “person penodedig” (“*appointed person*”) yw person a benodir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 1 o Atodlen 1B i Ddeddf 1990;

ystyr “rhestr” (“*list*”) yw rhestr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig a lunnir neu a gymeradwyir o dan adran 1 o Ddeddf 1990 (rhestru adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig)(**2**);

ystyr “ymchwiliad” (“*inquiry*”) yw ymchwiliad lleol a gynhelir o dan adran 2D(5)(a) o Ddeddf 1990.

(**1**) Mewnosodwyd adran 2A gan adran 24 o Ddeddf 2016.
(**2**) Diwygiwyd adran 1 gan adrannau 26(1) a 41(3) o Ddeddf 2016.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## RHAN 2

## Y Weithdrefn Gychwynnol: Penderfyniadau gan berson penodedig, sail adolygiad a cheisiadau am adolygiad

**Dosbarthiadau o adolygiadau i'w penderfynu gan berson penodedig**

**3.**—(1) Mae adolygiad y gwneir cais amdano ar y sail a nodir yn rheoliad 4 wedi ei ragnodi fel dosbarth o adolygiadau at ddibenion paragraff 1(1) o Atodlen 1B i Ddeddf 1990.

(2) Mae'r penderfyniad ar adolygiad sy'n perthyn i'r dosbarth a grybwyllir ym mharagraff (1) i'w wneud gan berson penodedig.

**Sail adolygiad**

**4.** Ni chaniateir gwneud cais am adolygiad ac eithrio ar y sail nad yw'r adeilad y mae'n ymwneud ag ef o ddiddordeb pensaernïol arbennig neu hanesyddol arbennig ac felly dylid ei dynnu oddi ar restr.

**Ceisiadau am adolygiad**

**5.**—(1) Rhaid gwneud cais am adolygiad i Weinidogion Cymru yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i gais—

(a) fod ar y ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (neu ffurf y mae ei heffaith yn sylweddol debyg iddi), gan gynnwys—

(i) enw'r adeilad rhestredig y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

(ii) cyfeiriad yr adeilad rhestredig neu ddisgrifiad o leoliad y tir lle y mae'r adeilad wedi ei leoli;

(iii) enw a chyfeiriad y ceisydd;

(iv) datganiad yn cadarnhau pa un a yw'r ceisydd yn berchennog neu'n feddiannydd yr adeilad;

(v) enw a chyfeiriad cynrychiolydd y ceisydd (os oes un) a chadarnhad o ran pa un a ddylid anfon unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth arall y mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'w hanfon at y ceisydd, at y cynrychiolydd yn hytrach na'r ceisydd;

(vi) datganiad yn nodi manylion llawn sail yr adolygiad, gan gynnwys yr holl faterion y mae'r ceisydd yn bwriadu eu codi yn ystod yr adolygiad ac y mae'r ceisydd yn ystyried y dylai'r person penodedig eu hystyried wrth gynnal yr adolygiad;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(vii) datganiad o ran drwy ba un o'r dulliau (neu gyfuniad o ddulliau) a grybwyllir yn adran 2D(5) o Ddeddf 1990 y mae'r ceisydd yn ystyried y dylid cynnal yr adolygiad; a

(b) cynnwys y canlynol—

(i) yr holl ddogfennau, deunyddiau a thystiolaeth y mae'r ceisydd yn bwriadu dibynnu arnynt yn ystod yr adolygiad;

(ii) copi o'r hysbysiad a gyflwynir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r adeilad rhestredig o dan adran 2D(2) o Ddeddf 1990;

(iii) pan na fo'r ceisydd yn berchennog yr adeilad rhestredig ond bod perchennog yn hysbys i'r ceisydd, tystysgrif yn cadarnhau bod perchennog yr adeilad rhestredig wedi ei hysbysu ynghylch bwriad y ceisydd i ofyn am yr adolygiad;

(iv) pan na fo'r ceisydd yn berchennog yr adeilad rhestredig ac nad oes perchennog yn hysbys i'r ceisydd, tystysgrif lofnodedig yn cadarnhau bod y ceisydd wedi cymryd pob cam rhesymol i gael gwybod pwy yw unrhyw berchennog o'r fath ond wedi methu â gwneud hynny.

(3) Rhaid gwneud cais o fewn y cyfnod o 12 wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad y cyflwynwyd hysbysiad i berchennog neu feddiannydd yr adeilad o dan adran 2D(2) o Ddeddf 1990.

**Hysbysiad ynghylch cael cais am adolygiad a gofynion cysylltiedig**

**6.**—(1) Rhaid i'r person penodedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael cais yn unol â rheoliad 5 roi gwybod i'r ceisydd a Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig am—

(a) dyddiad dechrau'r adolygiad ("y dyddiad dechrau");

(b) y rhif cyfeirnod a ddyrennir i'r adolygiad; ac

(c) y cyfeiriad y mae cyfathrebiadau ysgrifenedig ynghylch yr adolygiad i'w hanfon iddo.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru o fewn y cyfnod o dri diwrnod gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod y cawsant hysbysiad o dan baragraff (1) anfon at y ceisydd a'r person penodedig gopi o unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn flaenorol i Weinidogion Cymru o dan adran 2A o Ddeddf 1990 gan unrhyw berson â buddiant.

(3) Yn y rheoliad hwn ystyr "diwrnod gwaith" yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn Ddydd Gwener y Groglith nac yn ŵyl y banc.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Hysbysiad i bersonau â buddiant a phersonau eraill**

**7.**—(1) Rhaid i'r person penodedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod y cyfeirir ato yn rheoliad 6(2) roi hysbysiad ysgrifenedig ynghylch yr adolygiad i—

(a) pob person â buddiant; a

(b) unrhyw berson neu gorff arall y mae'r person penodedig yn ystyried eu bod yn briodol.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1)—

(a) datgan enw'r ceisydd a chyfeiriad yr adeilad rhestredig y mae'r adolygiad yn ymwneud ag ef;

(b) nodi'r materion yr hysbyswyd y ceisydd amdanynt o dan reoliad 6(1);

(c) cadarnhau bod copïau o unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn flaenorol i Weinidogion Cymru o dan adran 2A o Ddeddf 1990 gan unrhyw berson â buddiant wedi eu hanfon at y ceisydd gan Weinidogion Cymru;

(d) datgan y bydd unrhyw sylwadau o'r fath yn cael eu hystyried gan y person penodedig wrth wneud penderfyniad ar yr adolygiad;

(e) datgan y caniateir cyflwyno sylwadau ysgrifenedig pellach i'r person penodedig yn unol â rheoliad 9(2); a

(f) datgan sut y gellir gweld copi o'r cais am adolygiad a'r dogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'r adolygiad.

**Datganiad Gweinidogion Cymru ar yr adolygiad**

**8.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn y cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad dechrau, anfon at y ceisydd a'r person penodedig ddatganiad yn nodi'r holl faterion y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu codi yn ystod yr adolygiad ac y maent yn ystyried y dylai'r person penodedig eu hystyried wrth gynnal yr adolygiad ("datganiad Gweinidogion Cymru ar yr adolygiad").

(2) Rhaid i ddatganiad Gweinidogion Cymru ar yr adolygiad ddod gyda'r holl ddogfennau, deunyddiau a thystiolaeth y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu dibynnu arnynt yn ystod yr adolygiad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) rhaid i'r ceisydd anfon at y person penodedig ddau gopi o unrhyw sylwadaethau ysgrifenedig sydd ganddynt ynghylch datganiad Gweinidogion Cymru ar yr adolygiad fel eu bod yn dod i law o fewn y cyfnod o chwe wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad dechrau.

(4) Pan anfonir sylwadaethau ysgrifenedig at y person penodedig o dan baragraff (3) neu (5), rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ôl eu cael, anfon copi o unrhyw sylwadaethau o'r fath at Weinidogion Cymru.

(5) Mae'r gofyniad ym mharagraff (3) i'w ddehongli fel pe bai'n caniatáu anfon un copi yn unig o unrhyw sylwadaethau ysgrifenedig at ddiben bodloni'r gofyniad hwnnw mewn unrhyw achos pan fo'r ceisydd yn dewis anfon y sylwadaethau drwy ddull cyfathrebu electronig.

## RHAN 3

### Sylwadau ysgrifenedig

**Y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig**

**9.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), bernir at ddibenion adran 2D(5)(c) o Ddeddf 1990 bod y dogfennau a ganlyn yn ffurfio sylwadau ysgrifenedig y personau a ganlyn mewn perthynas â'r adolygiad—

(a) yn achos y ceisydd—

(i) cais a wnaed yn unol â rheoliad 5; a

(ii) unrhyw sylwadaethau ysgrifenedig a wnaed o dan reoliad 8(3);

(b) yn achos Gweinidogion Cymru, datganiad Gweinidogion Cymru ar yr adolygiad, a'r dogfennau, y deunyddiau a'r dystiolaeth sy'n dod gyda'r datganiad;

(c) yn achos person â buddiant, unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn flaenorol o dan adran 2A o Ddeddf 1990 gan y person hwnnw;

(d) yn achos unrhyw berson neu gorff y rhoddwyd hysbysiad iddo o dan reoliad 7(1)(b), unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn flaenorol gan y fath berson neu gorff ynghylch cynnig Gweinidogion Cymru i gynnwys yr adeilad y mae'r adolygiad yn ymwneud ag ef ar restr.

(2) Caiff person â buddiant neu unrhyw berson neu gorff y rhoddir hysbysiad iddo o dan reoliad 7(1)(b), yn ogystal â'r sylwadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(c) neu (d) (yn ôl y digwydd), gyflwyno sylwadau ysgrifenedig pellach o dan adran 2D(5)(c) o Ddeddf 1990, a phan fo'n gwneud hynny rhaid iddo anfon tri chopi o'r fath sylwadau at y person penodedig o fewn y cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad dechrau.

(3) Rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael unrhyw sylwadau a gyflwynir o dan baragraff (2), anfon copi o'r fath sylwadau at y ceisydd ac at Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i'r ceisydd a Gweinidogion Cymru anfon at y person penodedig ddau gopi o unrhyw

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

sylwadaethau ysgrifenedig sydd ganddynt ynghylch unrhyw sylwadau a gyflwynir o dan baragraff (1)(c), (d) neu (2) fel eu bod yn dod i law o fewn y cyfnod o chwe wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad dechrau.

(5) Pan fo'r person penodedig wedi cael unrhyw sylwadaethau ysgrifenedig yn unol â pharagraff (4), rhaid i'r person penodedig—

(a) yn achos unrhyw sylwadaethau o'r fath a geir oddi wrth y ceisydd, anfon copi at Weinidogion Cymru; a

(b) yn achos unrhyw sylwadaethau o'r fath a geir oddi wrth Weinidogion Cymru, anfon copi at y ceisydd.

(6) Pan fo paragraffau (2) i (4) yn gosod gofyniad ar unrhyw berson neu unrhyw gorff i anfon mwy nag un copi o unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu sylwadaethau ysgrifenedig (yn ôl y digwydd) at unrhyw berson arall neu i unrhyw gorff arall, mae'r fath ofyniad i'w ddehongli fel pe bai'n caniatáu anfon un fersiwn yn unig o'r ddogfen honno at ddiben bodloni'r gofyniad hwnnw mewn unrhyw achos pan fo'r person y gosodir y gofyniad arno yn dewis anfon y sylwadau neu'r sylwadaethau drwy ddull cyfathrebu electronig.

**Penodi asesydd**

**10.** Pan fo asesydd yn cael ei benodi o dan baragraff 4(1)(b) o Atodlen 1B i Ddeddf 1990 (penderfyniadau ar adolygiadau gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru), rhaid i'r person penodedig hysbysu'r ceisydd a Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig ynghylch y penodiad, enw'r person a benodir a'r materion y bydd yn rhoi cyngor arnynt.

## RHAN 4

## Gwrandawiadau

**Hysbysiad ynghylch gwrandawiad, materion penodedig ac ymddangosiadau gerbron gwrandawiad**

**11.**—(1) Pan fo'r person penodedig yn penderfynu bod adolygiad i'w gynnal drwy wrandawiad, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw i—

(a) y ceisydd;

(b) Gweinidogion Cymru; ac

(c) unrhyw berson neu gorff arall y mae'r person penodedig yn ystyried eu bod yn briodol.

(2) Rhaid i'r hysbysiad a roddir o dan baragraff (1) nodi'r materion penodedig, ond nid yw cynnwys y fath faterion yn yr hysbysiad yn atal y person penodedig

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

rhag caniatáu ystyried y fath faterion eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(3) Y personau sydd â'r hawl i ymddangos yn y gwrandawiad yw'r rheini y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) i (c).

(4) Mae presenoldeb unrhyw berson nad oes ganddo'r hawl i ymddangos yn y gwrandawiad yn ddarostyngedig i ddisgresiwn y person penodedig.

**Dyddiad gwrandawiad a hysbysiad ynghylch gwrandawiad**

**12.**—(1) Rhaid i'r person penodedig bennu'r dyddiad, yr amser a'r lle y cynhelir y gwrandawiad (a chaiff eu hamrywio wedi hynny).

(2) Rhaid i'r person penodedig roi i'r personau hynny sydd â'r hawl i ymddangos yn y gwrandawiad nid llai na phedair wythnos o hysbysiad ynghylch y dyddiad, yr amser a'r lle a bennir ar gyfer cynnal y gwrandawiad (ac unrhyw amrywiad dilynol iddynt).

**Y weithdrefn mewn gwrandawiad**

**13.**—(1) Ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Rhan hon, mae'r weithdrefn mewn gwrandawiad i fod fel y'i pennir gan y person penodedig.

(2) Rhaid i'r person penodedig ddatgan ar gychwyn y gwrandawiad y weithdrefn y bwriedir ei mabwysiadu.

(3) Caiff unrhyw berson sydd â'r hawl i ymddangos yn y gwrandawiad gael ei gynrychioli gan berson arall yn lle hynny.

(4) Pan fo gan ddau neu ragor o bersonau fuddiant tebyg yn y materion sy'n cael eu hystyried yn y gwrandawiad, caiff y person penodedig ganiatáu i un neu ragor o bersonau ymddangos ar ran rhai o'r personau sydd â buddiant o'r fath, neu ar ran yr holl bersonau sydd â buddiant o'r fath.

(5) Caiff y person penodedig wrthod caniatáu rhoi unrhyw dystiolaeth y mae'n ei hystyried yn amherthnasol neu'n ailadroddus.

(6) Caiff y person penodedig fwrw ymlaen â gwrandawiad yn absenoldeb unrhyw berson sydd â'r hawl i ymddangos yn y gwrandawiad.

(7) Caiff y person penodedig—

(a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cymryd rhan mewn gwrandawiad neu sy'n bresennol ynddo ac sydd, ym marn y person penodedig, yn ymddwyn mewn modd aflonyddgar, ymadael; a

(b) gwrthod caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd; neu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) ond caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd o dan y fath amodau a bennir gan y person penodedig,

ond caiff unrhyw berson o'r fath gyflwyno unrhyw dystiolaeth neu fater arall yn ysgrifenedig i'r person penodedig cyn diwedd y gwrandawiad.

(8) Caiff y person penodedig gymryd i ystyriaeth unrhyw sylw neu dystiolaeth neu unrhyw ddogfen arall a geir gan unrhyw berson cyn dechrau'r gwrandawiad neu yn ystod y gwrandawiad ar yr amod bod y person penodedig yn datgelu hynny yn y gwrandawiad.

(9) Caiff y person penodedig o dro i dro ohirio'r gwrandawiad ac—

(a) pan gyhoeddir y dyddiad, yr amser a'r lle y mae'r gwrandawiad i ailddechrau cyn y gohiriad, rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gymryd camau rhesymol i roi hysbysiad o'r dyddiad, yr amser a'r lle hwnnw i unrhyw berson sydd â'r hawl i ymddangos yn y gwrandawiad a oedd yn absennol ar adeg y cyhoeddiad; neu

(b) pan na fo'r dyddiad, yr amser na'r lle y mae'r gwrandawiad i ailddechrau yn cael eu cyhoeddi cyn y gohiriad, rhaid iddo—

(i) pennu (a chaiff amrywio wedi hynny) y dyddiad, yr amser a'r lle hwnnw; a

(ii) yn ddarostyngedig i baragraff (10), rhoi i'r personau hynny sydd â'r hawl i ymddangos yn y gwrandawiad nid llai na phedair wythnos o hysbysiad ynghylch y dyddiad, yr amser a'r lle hwnnw (ac unrhyw amrywiad dilynol iddynt).

(10) Pan fo paragraff (9)(b) yn gymwys, caiff y person penodedig roi i'r personau hynny sydd â'r hawl i ymddangos yn y gwrandawiad lai na phedair wythnos o hysbysiad ynghylch y dyddiad, yr amser a'r lle a bennir ar gyfer ailddechrau'r gwrandawiad (ac unrhyw amrywiad dilynol iddynt) mewn unrhyw achos pan fo'r ceisydd, y person penodedig a Gweinidogion Cymru yn cytuno i'r fath gyfnod byrrach.

**Penodi asesydd**

**14.** Pan fo asesydd yn cael ei benodi o dan baragraff 4(1)(a) o Atodlen 1B i Ddeddf 1990, rhaid i'r person penodedig hysbysu'r personau sydd â'r hawl i ymddangos yn y gwrandawiad yn ysgrifenedig ynghylch y penodiad, enw'r person a benodir a'r materion y bydd yn rhoi cyngor arnynt.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 5

## Y weithdrefn ymchwiliadau

### Hysbysiad ynghylch ymchwiliad, materion penodedig ac ymddangosiadau gerbron ymchwiliad

**15.**—(1) Pan fo'r person penodedig yn penderfynu bod adolygiad i'w gynnal drwy ymchwiliad, rhaid iddo roi hysbysiad i'r perwyl hwnnw i—

(a) y ceisydd;

(b) Gweinidogion Cymru; ac

(c) unrhyw berson neu gorff arall y mae'r person penodedig yn ystyried eu bod yn briodol.

(2) Rhaid i'r hysbysiad a roddir o dan baragraff (1) nodi'r materion penodedig, ond nid yw cynnwys y fath faterion yn yr hysbysiad yn atal y person penodedig rhag caniatáu ystyried y fath faterion eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(3) Y personau sydd â'r hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad yw'r rheini y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) i (c).

### Dyddiad ymchwiliad, hysbysiad ynghylch ymchwiliad a chyhoeddusrwydd mewn perthynas ag ymchwiliad

**16.**—(1) Rhaid i'r person penodedig bennu'r dyddiad, yr amser a lle y mae'r ymchwiliad i'w gynnal (a chaiff eu hamrywio wedi hynny).

(2) Rhaid i'r person penodedig roi i'r personau hynny sydd â'r hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad nid llai na phedair wythnos o hysbysiad ynghylch y dyddiad, yr amser a'r lle a bennir ar gyfer cynnal yr ymchwiliad (ac unrhyw amrywiad dilynol iddynt).

(3) Caiff y person penodedig wneud trefniadau pellach ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i gynnal yr ymchwiliad fel y mae'n ystyried ei fod yn briodol o dan yr amgylchiadau.

### Cyflwyno datganiadau ymchwiliad, dogfennau etc.

**17.**—(1) Caiff y person penodedig drwy hysbysiad ysgrifenedig ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i unrhyw berson neu gorff sydd â'r hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad, erbyn y fath ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad, anfon at y person penodedig a'r fath bersonau neu gyrff eraill a bennir yn yr hysbysiad—

(a) datganiad yn unol â pharagraff (2) ("datganiad ymchwiliad"); a

(b) copi o bob dogfen ar y rhestr o'r fath ddogfennau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad ymchwiliad hwnnw.

(2) Rhaid i ddatganiad ymchwiliad gynnwys—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) datganiad ysgrifenedig sy'n cynnwys manylion yr achos sy'n ymwneud â'r materion penodedig y mae person yn bwriadu eu cyflwyno mewn ymchwiliad;

(b) rhestr o ddogfennau (os oes rhai) y mae'r person sy'n cyflwyno'r fath achos yn bwriadu cyfeirio atynt, dibynnu arnynt neu eu cyflwyno fel tystiolaeth; ac

(c) rhestr o'r tystion gan bennu—

(i) y personau sydd i roi tystiolaeth, neu a elwir i roi tystiolaeth, yn yr ymchwiliad;

(ii) y materion y mae'r fath bersonau i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â hwy; a

(iii) cymwysterau perthnasol y fath bersonau i wneud hynny.

**Y weithdrefn mewn ymchwiliad**

**18.**—(1) Ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Rhan hon, mae'r weithdrefn mewn ymchwiliad i fod fel y'i pennir gan y person penodedig.

(2) Rhaid i'r person penodedig ddatgan ar gychwyn yr ymchwiliad y weithdrefn y bwriedir ei mabwysiadu.

(3) Caiff unrhyw berson sydd â'r hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad gael ei gynrychioli gan berson arall yn lle hynny.

(4) Pan fo gan ddau neu ragor o bersonau fuddiant tebyg yn y mater sy'n destun ymchwiliad, caiff y person penodedig ganiatáu i un neu ragor o bersonau ymddangos ar ran rhai o'r personau sydd â buddiant o'r fath, neu ar ran yr holl bersonau sydd â buddiant o'r fath.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), mae gan unrhyw berson sydd â'r hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad yr hawl i alw tystiolaeth, croesholi personau sy'n rhoi tystiolaeth a gwneud datganiadau i gloi.

(6) Caiff y person penodedig wrthod caniatáu—

(a) rhoi tystiolaeth neu gyflwyno tystiolaeth;

(b) croesholi personau sy'n rhoi tystiolaeth; neu

(c) cyflwyno unrhyw fater arall,

y mae'r person penodedig yn ystyried ei fod yn amherthnasol neu'n ailadroddus.

(7) Caiff y person penodedig fwrw ymlaen ag ymchwiliad yn absenoldeb unrhyw berson sydd â'r hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad.

(8) Caiff y person penodedig—

(a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cymryd rhan mewn ymchwiliad neu sy'n bresennol ynddo ac sydd, ym marn y person penodedig, yn ymddwyn mewn modd aflonyddgar, ymadael; a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) gwrthod caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd; neu

(c) ond caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd o dan y fath amodau a bennir gan y person penodedig,

ond caiff unrhyw berson o'r fath gyflwyno unrhyw dystiolaeth neu fater arall yn ysgrifenedig i'r person penodedig cyn diwedd yr ymchwiliad.

(9) Caiff y person penodedig gymryd i ystyriaeth unrhyw sylw neu dystiolaeth neu unrhyw ddogfen arall a geir gan unrhyw berson cyn dechrau'r ymchwiliad neu yn ystod yr ymchwiliad ar yr amod bod y person penodedig yn datgelu hynny yn yr ymchwiliad.

(10) Caiff y person penodedig o dro i dro ohirio'r ymchwiliad ac—

(a) pan gyhoeddir y dyddiad, yr amser a'r lle y mae'r ymchwiliad i ailddechrau cyn y gohiriad, rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gymryd camau rhesymol i roi hysbysiad o'r dyddiad, yr amser a'r lle hwnnw i unrhyw berson sydd â'r hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad a oedd yn absennol ar adeg y cyhoeddiad; neu

(b) pan na fo'r dyddiad, yr amser na'r lle y mae'r ymchwiliad i ailddechrau yn cael eu cyhoeddi cyn y gohiriad, rhaid iddo—

  (i) pennu (a chaiff amrywio wedi hynny) y dyddiad, yr amser a'r lle hwnnw; a

  (ii) yn ddarostyngedig i baragraff (11), rhoi i'r personau hynny sydd â'r hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad nid llai na phedair wythnos o hysbysiad ynghylch y dyddiad, yr amser a'r lle hwnnw (ac unrhyw amrywiad dilynol iddynt).

(11) Pan fo paragraff (10)(b) yn gymwys, caiff y person penodedig roi i'r personau hynny sydd â'r hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad lai na phedair wythnos o hysbysiad ynghylch y dyddiad, yr amser a'r lle a bennir ar gyfer ailddechrau'r ymchwiliad (ac unrhyw amrywiad dilynol iddynt) mewn unrhyw achos pan fo'r ceisydd, y person penodedig a Gweinidogion Cymru yn cytuno i'r fath gyfnod byrrach.

**Penodi asesydd**

**19.** Pan fo asesydd yn cael ei benodi o dan baragraff 4(1)(a) o Atodlen 1B i Ddeddf 1990, rhaid i'r person penodedig hysbysu'r personau sydd â'r hawl i ymddangos yn yr ymchwiliad yn ysgrifenedig ynghylch y penodiad, enw'r person a benodir a'r materion y bydd yn rhoi cyngor arnynt.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 6

## Materion atodol

**20.**—(1) Caiff y person penodedig yn ysgrifenedig, ar unrhyw adeg cyn iddo roi ei benderfyniad ar yr adolygiad, ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd, Gweinidogion Cymru, unrhyw berson â buddiant neu unrhyw berson neu gorff arall ddarparu'r fath wybodaeth bellach a bennir sy'n berthnasol i'r adolygiad.

(2) Rhaid darparu'r fath wybodaeth yn ysgrifenedig o fewn y fath gyfnod a bennir gan y person penodedig.

(3) Pan fo'r person penodedig yn gwneud gwybodaeth bellach yn ofynnol o dan baragraff (1), rhaid iddo roi cyfle i'r ceisydd a Gweinidogion Cymru gyflwyno sylwadaeth ar yr wybodaeth a ddarperir felly yn unol â'r fath drefniadau y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

### Arolygu safleoedd

**21.**—(1) Caiff y person penodedig ar unrhyw adeg gynnal—

(a) arolygiad ar ei ben ei hun o'r adeilad y mae'r adolygiad yn ymwneud ag ef; neu

(b) arolygiad o'r adeilad yng nghwmni unrhyw un neu ragor o'r personau a ganlyn—

(i) y ceisydd;

(ii) unrhyw berchennog neu feddiannydd arall yr adeilad sy'n hysbys i'r person penodedig;

(iii) Gweinidogion Cymru; a

(iv) unrhyw berson arall y mae'r person penodedig yn ystyried ei fod yn briodol.

(2) Pan fo'r person penodedig mewn unrhyw achos yn bwriadu cynnal arolygiad, rhaid iddo roi i bob un o'r personau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(b) y fath hysbysiad sy'n ymddangos yn rhesymol iddo o dan yr amgylchiadau—

(a) ynghylch dyddiad ac amser yr arolygiad arfaethedig; a

(b) ynghylch pa un a yw—

(i) y person penodedig yn bwriadu cynnal arolygiad ar ei ben ei hun; neu

(ii) unrhyw un neu ragor o'r personau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(b) wedi ei wahodd neu eu gwahodd i fynd gyda'r person penodedig wrth gynnal yr arolygiad.

(3) Nid yw'r person penodedig yn rhwym i ohirio arolygiad os nad yw unrhyw berson a wahoddir i fynd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gydag ef o dan baragraff (2)(b)(ii) yn bresennol ar yr amser penodedig.

**Caniatáu rhagor o amser**

**22.** Caiff y person penodedig ar unrhyw adeg mewn unrhyw achos penodol ganiatáu rhagor o amser i gymryd unrhyw gam y mae'n ofynnol ei gymryd neu y galluogir ei gymryd yn rhinwedd y Rheoliadau hyn; ac mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at gyfnod y mae'n ofynnol cymryd unrhyw gam o'i fewn, neu y galluogir cymryd unrhyw gam o'i fewn, i'w dehongli yn unol â hynny.

**Cyhoeddi dogfennau'r adolygiad**

**23.**—(1) Rhaid i'r person penodedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl eu cael, sicrhau bod copïau o'r deunyddiau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) ar gael i edrych arnynt.

(2) Y deunyddiau yw—

(a) y cais am yr adolygiad;

(b) unrhyw ddatganiad ymchwiliad, sylwadau eraill, sylwadaethau, gwybodaeth neu ddogfennau eraill a anfonir at y person penodedig yn ystod yr adolygiad.

## RHAN 7

### Penderfyniadau ar yr adolygiad

**Hysbysu ynghylch y penderfyniad**

**24.** Rhaid i'r person penodedig, ar ôl dod i'r casgliad nad yw unrhyw dystiolaeth bellach yn ofynnol er mwyn ei alluogi i wneud ei benderfyniad ar yr adolygiad, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol roi hysbysiad ynghylch ei benderfyniad, a'r rhesymau dros ddod i'r penderfyniad hwnnw, i—

(a) y ceisydd;

(b) Gweinidogion Cymru;

(c) pob person â buddiant; a

(d) unrhyw berson y rhoddir hysbysiad iddo o dan reoliad 7(1)(b).

*Ken Skates*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru
4 Mai 2017

Explanatory Memorandum to the:

1. The Listed Buildings (Review of Listing Decisions) (Wales) Regulations 2017;
2. The Scheduled Monuments (Review of Scheduling Decisions) (Wales) Regulations 2017.

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Department of Economy, Science and Transport and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Cabinet Secretary's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the:

1. The Listed Buildings (Review of Listing Decisions) (Wales) Regulations 2017
2. The Scheduled Monuments (Review of Scheduling Decisions) (Wales) Regulations 2017

Ken Skates
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure
8 May 2017

## 1. Description

1.1 The Historic Environment (Wales) Act 2016 (the 2016 Act) has amended the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979 (the 1979 Act) and the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 (the 1990 Act) to allow an owner and/or an occupier to ask the Welsh Ministers to review a decision to:

- schedule a monument,
- enlarge a scheduled area (where the monument is identified by reference to a map maintained by the Welsh Ministers), or
- list a building.

1.2 The Scheduled Monuments (Review of Scheduling Decisions) (Wales) Regulations 2017 (the Scheduling Review Regulations) and the Listed Buildings (Review of Listing Decisions) (Wales) Regulations 2017 (the Listing Review Regulations) make provision about:

- the grounds for reviews;
- how and when an application for a review must be made;
- the information that must be provided with an application;
- the classes of reviews to be decided by a person appointed by the Welsh Ministers; and;
- other procedural matters.

1.3 Since the Scheduling Review Regulations and Listing Review Regulations closely mirror one another in their policy intent, structure and detailed provisions, they can be appropriately considered together in this explanatory memorandum.

## 2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

2.1 None

## 3. Legislative background

3.1 The Welsh Ministers make the Scheduling Review Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 1AE and 60(3) of, and Schedule A2 to the 1979 Act (those enabling provisions having been inserted into the 1979 Act by sections 3(1) and 40(2) of, and Schedule 1 to, the 2016 Act respectively).

3.2 The Welsh Ministers make the Listing Review Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 2D and 93(1) of, and Schedule 1B to, the 1990 Act (sections 2D of, and Schedule 1B to, the 1990 Act having been inserted by section 24(1) of, and Schedule 2 to, the 2016 Act respectively, while section 93(1) of the 1990 Act was amended by section 40(3) of the 2016 Act).

3.4 In accordance with the provisions of section 60(5) of the 1979 Act and section 93(3) of the 1990 Act these statutory instruments follow the negative procedure.

## 4. Purpose and intended effect of the legislation

4.1 The 1979 Act requires the Welsh Ministers to compile and maintain a schedule of monuments of national importance. The 1990 Act requires them to compile lists of buildings of special architectural or historic interest.

4.2 Following amendments made by the 2016 Act, the 1979 and 1990 Acts now place a duty on the Welsh Ministers to consult the owner, occupier and other appropriate persons if they propose to:

- include a monument on the schedule,
- exclude a monument from the schedule,
- enlarge or reduce the area shown for a scheduled monument (where the monument is identified by a map maintained by the Welsh Ministers),
- include a building on a list, or
- exclude a building from a list.

4.3 If the Welsh Ministers propose to schedule a monument, enlarge a scheduled area or list a building, the historic asset concerned will enjoy interim protection as if already designated until the Welsh Ministers reach a decision.

4.4 Under section 1AE of the 1979 Act (as inserted by section 3 of the 2016 Act), an owner and/or an occupier may ask the Welsh Minister to review their decision to schedule a monument or enlarge a scheduled area. Section 2D of the 1990 Act (as inserted by section 24 of the 2016 Act) provides a comparable right of review if the Welsh Ministers decide to list a building.

4.5 The Welsh Ministers must carry out the requested review employing one or more of the following procedures, as they deem appropriate:

- a public local inquiry (in the case of a scheduled monument) or a local inquiry (in the case of a listed building),
- a hearing, or
- written representations.

Those procedures are well established in planning and listed building consent appeals.

4.6 It is the Welsh Ministers’ responsibility to determine whether a monument should be scheduled or a building listed. To introduce independence and transparency into the review process, Schedule A2 of the 1979 Act (inserted by section 3 of, and Schedule 1 to, the 2016 Act) and Schedule 1B of the 1990 Act (inserted by section 24 of, and Schedule 2 to, the 2016 Act) make provision for the Welsh Ministers to prescribe by regulations classes of reviews to be decided by an appointed person.

4.7 Accordingly, the Scheduling and Listing Review Regulations establish that all relevant reviews will be conducted and determined by an appointed person. The Planning Inspectorate will be the appointed person for these reviews.

4.8 Under sections 1AE(6) of the 1979 Act and 2D(6) of the 1990 Act, the Review Regulations set out:

- the grounds for a review;
- how and when an application for a review must be made; and
- the information that must be provided with an application.

4.9 The grounds for review adopted in the Review Regulations consequently reflect the fundamental designation criteria — national importance for scheduled monuments and special architectural or historic interest for listed buildings.

4.10 An application for a review must be received within 12 weeks of the Welsh Ministers' notice of designation (although the Review Regulations give the appointed person discretion to allow further time for any steps in the review process). The application must set out all matters which, in the view of the applicant, the appointed person should take into account in determining the review.

4.11 The Scheduling and Listing Review Regulations also set out how the available review procedures shall be conducted by the appointed person. Although the primary parties to the review are the applicant and the Welsh Ministers, other interested persons can participate. The Review Regulations aim to ensure that all parties to a review are given the opportunity to provide evidence on the appropriateness of the designation.

4.12 The review procedures are triggered by the receipt of the application and the appointed person will set a start date. As soon as possible after receiving the application, the appointed person must notify the Welsh Ministers and interested persons who were consulted on the original designation proposal. The Welsh Ministers have four weeks from the review's start date to submit a review statement, setting out the matters that they consider the appointed person should take into account in determining the review. Interested persons may also make representations to the appointed person within four weeks of the start date.

4.13 Within six weeks of the start date, the applicant and the Welsh Ministers must submit any additional comments that they wish to make on representations that the appointed person has received. At the end of that period, the appointed person may determine the review application on the basis of the written representations received.

4.14 The appointed person may also, having provided written notice to the applicant, the Welsh Ministers and any other person whom they consider appropriate, carry out the review by means of a hearing, or in complex cases, a public inquiry or by any combination of the three procedures.

4.15 Under all three procedures, the appointed person may appoint an assessor to provide advice and assistance in the conduct of the review. The appointed person may, at any time, require any of the parties to the review to provide additional information, and may also carry out a site inspection.

4.16 Regulation 25 of the Scheduling Review Regulations provides powers for the appointed person to require the payment of costs. Such costs may include the entire

administrative costs incurred by the appointed person and any costs arising from the preparation of an aborted hearing or inquiry. The appointed person may also make orders as to costs of participants and who should pay them. The policy intention is that the payment of costs would only apply to unreasonable behaviour, by any party to the review.

4.17 Equivalent provision is unnecessary in the Listing Review Regulations. Paragraph 2(1) of Schedule 1B to the 1990 Act provides that an appointed person has the same powers in relation to a review under section2D of that Act as the Welsh Ministers have by virtue of section 322C (Costs: Wales) of the Town and Country Planning Act 1990, as applied by section 89 of that Act to the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas Act 1990.

## 5. Consultation

5.1 Consultation on the proposals for the review procedures was conducted between 19 October 2016 and 13 January 2017.

5.2 Of those who responded, 97% agreed with the proposed grounds on which a review application could be made. None were opposed.

5.3 The consultation also sought views on the requirement that a request for a review must be made within three months of receipt of the notice of designation. A majority of respondents agreed with the proposal, a number pointing to the need to provide certainty on the status of the asset as quickly as possible. Of those that did not agree (27%), the majority argued that a longer period was necessary.

5.4 A significant majority (74%) of respondents also agreed that the proposed procedures outlined in the consultation were reasonable and fair for all involved. A majority (61%) agreed that the information required for reviews was appropriate. Most respondents also agreed (88%) with the proposal for the award of costs to deter unreasonable behaviour.

5.5 The regulations have been amended to take account of the consultation responses, including requiring further information on the location of the historic asset on the review application, regularising the role of the interested persons in the review process and allowing the appointed person flexibility to allow further time if necessary during the process.

5.5 A summary report of the consultation responses is available on the Welsh Government website at: https://consultations.gov.wales/consultations/regulations-required-historic-environment-wales-act-2016-and-guidance

## 6. Regulatory Impact Assessment

6.1 The impacts of the changes to the designation procedures, including the likely costs and impacts of reviews conducted by public local inquiry, hearing or written representations, were considered in the Regulatory Impact Assessment (RIA) prepared for the Historic Environment (Wales) Act 2016 (pages 56 to 60). The RIA anticipated that reviews would be infrequent and, if conducted by the Planning

Inspectorate, have an annual cost for the Welsh Government of £6,750. The cost to the owner of a property to gather evidence and submit a request for a review is estimated to be between £50 and £2,000 (depending upon the nature of the case and whether expert advice from consultants is required). The analysis in the RIA for the Act remains valid and as a result it was not considered necessary to prepare a separate Regulatory Impact Assessment for these Regulations A copy of the RIA may be obtained from the attached link (http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10184-em-r/pri-ld10184-em-r-e.pdf) or from Historic Environment Service (Cadw), Plas Carew, Unit 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Cardiff, CF15 7QQ.]

# SL(5)110 – Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adolygu Penderfyniadau Rhestru) (Cymru) 2017

## Cefndir a Phwrpas

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n berthnasol i adolygiadau a gynhelir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u penderfyniad i gynnwys adeilad ar restr a lunnir neu a gymeradwyir o dan adran 1 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

## Y weithdrefn

Negyddol.

## Craffu Technegol

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 (vi) mewn perthynas â thestun Saesneg yr offeryn hwn.

Mewn rhai mannau yn y Rheoliadau, mae cyfeiriad at "in paragraph" ond nid oes rhif paragraff wedi'i gynnwys. Mae hyn yn digwydd yn rheoliadau 3(2), 6(2), 7(2), 11(2), 15(2) a 20(3).

Mae'r un broblem yn digwydd mewn perthynas ag "under regulation" yn rheoliad 7(2)(b).

Yn ogystal, nid yw rheoliad 7(2)(b) wedi cael ei ysgrifennu'n iawn. Y rheswm am hyn yw y dylai rheoliad newydd 7(2)(c) ddechrau gyda "confirm that copies ...". Dylai rheoliad 7(2)(c) wedyn ddod yn 7(2)(d), ac yn y blaen.

Nid oedd y diffygion hyn yn y Rheoliadau drafft buom yn edrych arnynt.

Rydym yn deall drwy ein gohebiaeth gyda Llywodraeth Cymru nad oedd y fersiwn copi caled a lofnodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet yn cynnwys y problemau fformatio hyn, a bod y rhain yn y fersiwn a osodwyd yn unig. Rydym wedi cael gwybod gan Lywodraeth Cymru (ond nid ydym wedi gweld yr ohebiaeth wreiddiol) bod y Cofrestrydd OS wedi awdurdodi ailargraffiad o'r offeryn, fel ei fod yn cadw at y fersiwn a wnaed.

## Craffu ar rinweddau

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**16 Mai 2017**

Eitem 5.1

Mai 2017

# Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru

## Sut y dylid cymhwyso Cytundebau Rheoli Rhywogaethau a Gorchmynion Rheoli













OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG31285
ISBN digidol: 978 1 4734 9086 4

Delwedd chwith uchaf: Paul Beckwith
Delwedd ganolog uchaf:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Delwedd de uchaf a canolog gwaelod:
Jean Haxaire
Delwedd chwith a de gwaelod: GB NNSS

# Cynnwys


Cynnwys ....2

1 Cyflwyniad ....5

2 Trosolwg o'r darpariaethau rheoli rhywogaethau ....7

2.1 Nodi pwy sy'n gyfrifol am gydgysylltu....7

2.2 Y broses bresennol....7

2.3 Sut y caiff y darpariaethau hyn eu defnyddio ....8

2.4 Cwmpas y mesurau ....8

2.4.1 Rhywogaethau sy’n cytrefu’n naturiol....9

2.4.2 Rhywogaethau cynhenid a arferai breswylio yma ac a ailgyflwynir ....9

2.4.3 Gwarchod Rhywogaethau a Chynefinoedd....10

2.4.4 Y prawf effaith andwyol ddifrifol....11

2.4.5 Rhywogaethau estron eang eu gwasgariad ....11

2.4.6 Safle ac Annedd....12

2.5 Ystyriaethau o ran lles anifeiliaid ....13

2.6 Diogelu rhywogaethau nad ydynt wedi'u targedu ....13

2.7 Adolygu darpariaethau rheoli rhywogaethau....13

2.8 Cyhoeddi nifer y cytundebau a'r gorchmynion ....14

3 Cytundebau rheoli rhywogaethau ....14

3.1 Beth yw cytundeb rheoli rhywogaeth? ....14

3.2 Pwy all lunio cytundeb rheoli rhywogaeth? ....14

3.3 Pryd y dylai awdurdod amgylcheddol gynnig llunio cytundeb rheoli rhywogaeth? 15

3.3.1 Rhywogaethau cynhenid a arferai breswylio yma ....16

3.4 Yr hyn y mae'n rhaid i gytundeb rheoli rhywogaeth ei gynnwys....17

3.5 Terfynu cytundeb....18

4 Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau ....................................................................19
4.1 Pryd y gall awdurdod amgylcheddol wneud gorchymyn rheoli rhywogaeth ..........19
4.1.1 Dim perchennog hysbys..........................................................................20
4.2 Yr hyn y dylai gorchymyn rheoli rhywogaeth ei gynnwys .....................................20
4.3 Gofynion hysbysu ..............................................................................................21
4.4 Pan ddaw'r gorchymyn i rym..............................................................................21
4.5 Gorchmynion rheoli rhywogaethau brys ..............................................................22
4.6 Dirymu Gorchymyn Rheoli Rhywogaeth yn Ôl.....................................................23
4.7 Terfynu gorchymyn ............................................................................................24
5 Pwerau mynediad, gorfodi, troseddau a chosbau......................................................25
5.1 Pwerau Mynediad...............................................................................................25
5.2 Gorfodi...............................................................................................................26
5.3 Troseddau a chosbau.........................................................................................27
6 Cyfrifoldeb am gostau ac iawndal..............................................................................27
6.1 Cyfrifoldeb am gostau gweithrediadau rheoli rhywogaeth ....................................27
6.2 Iawndal ..............................................................................................................28
6.3 Anghydfodau.......................................................................................................29
7 Hawl i apelio ............................................................................................................29
8 Atodiad.......................................................................................................................30
Rhan I – Rhywogaethau estron.................................................................................30
Rhywogaethau cynhenid ..........................................................................................31
Rhywogaethau cynhenid a arferai breswylio yma.......................................................32
Planhigion – Rhywogaethau estron ..........................................................................32
Diffiniadau sy'n ymwneud â rhywogaethau……………………………………………32

# 1 Cyflwyniad

1. Mae'r cod ymarfer hwn yn nodi sut y dylai Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru gymhwyso'r darpariaethau ar gytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981[1]. Dim ond i Gymru y mae'r cod hwn yn berthnasol. Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cyhoeddi cod ymarfer ar wahân ar gyfer Lloegr.

2. Mae mwy a mwy o rywogaethau'n cael eu cludo, naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol, y tu hwnt i'w tiriogaeth naturiol gan bobl. Tra bod llawer o'r rhywogaethau estron hyn yn gallu bod yn fanteisiol, er enghraifft i'r sectorau amaethyddol, coedwigaeth, garddwriaeth, pysgodfeydd ac anifeiliaid anwes, mae canran fach ohonynt a elwir yn rhywogaethau estron goresgynnol yn gallu cael effaith negyddol. Rhywogaethau estron goresgynnol yw un o'r bygythiadau mwyaf i'n hamgylchedd. Maent yn costio tua £2 biliwn y flwyddyn i economi'r DU ac mae rhai hyd yn oed yn peryglu ein hiechyd. Nid yw rhywogaethau estron goresgynnol yn parchu ffiniau ac er mwyn mynd i'r afael â hwy mae Cymru yn cydweithredu â gweddill Prydain Fawr; nodir y dull hwn o weithredu yn Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr. Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd y mater hwn o ddifrif, ac yn cydnabod ei bod yn well atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag ymsefydlu yma yn y lle cyntaf na cheisio eu rheoli ar ôl iddynt fwrw gwreiddiau yma, sy'n aml yn ddrud iawn neu'n opsiwn anymarferol.

3. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru allu ymateb yn gyflym pan ganfyddir bygythiad newydd. Mae cael mynediad i safle er mwyn rheoli rhywogaeth estron oresgynnol newydd sy'n achosi, neu'n debygol o achosi, niwed yn gallu bod yn hollbwysig. Fel arfer, rydym yn sicrhau hyn yn wirfoddol gan fod y rhan fwyaf o dirfeddianwyr yn hapus i ganiatáu mynediad i'w tir. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod hyn yn bosibl bob amser, hyd yn oed os na wyddom pwy yw'r perchennog dan sylw. Bydd y pwerau newydd hyn yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cael mynediad i'r tir a chael gwared ar rywogaeth estron oresgynnol cyn iddi ymsefydlu'n ehangach.

[1] Cyflwynwyd y mesurau gan adran 23 o Ddeddf Seilwaith 2015, gan ddiwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

4. Gallai ailgyflwyno[2] rhywogaethau a arferai fod yn rhai preswyl cynhenid[3] yn anghyfreithlon hefyd, o dan amgylchiadau penodol, gael effeithiau negyddol sylweddol ar fuddiannau amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd gan fod amgylchiadau wedi newid ers y tro diwethaf roeddent yn bresennol yng Nghymru. At hynny, gallai ailgyflwyno rhywogaethau o'r fath gael effaith andwyol ar les yr anifeiliaid unigol a ryddheir os cânt eu rhyddhau i amgylchedd nad yw'n addas i'w hanghenion. Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu er mwyn mynd i achosion o ailgyflwyno rhywogaethau heb drwydded o dan yr amgylchiadau hyn. Bydd modd gwneud hyn drwy gytundeb fel arfer ond, mewn achosion prin, bydd angen defnyddio pwerau rheoli er mwyn cael mynediad i dir pan fydd popeth arall yn methu.

5. Er mwyn diogelu iechyd planhigion, gellir defnyddio Gorchymyn Iechyd Planhigion i orfodi rheolaethau a chyfyngiadau ar fewnforio, symud a chadw planhigion a phlâu planhigion penodol a deunyddiau penodol eraill. Mae'r Gorchymyn Iechyd Planhigion yn gwahardd mewnforio rhai genera a mathau penodol o ddeunydd o rywogaethau penodol yn llwyr. Mae'r Gorchymyn hefyd yn gosod cyfyngiadau arbennig, gan gynnwys amodau symud, ar nifer o rywogaethau o gnydau neu rywogaethau coedwig, er mwyn diogelu diwydiannau amaethyddol, coedwigaeth a garddwriaethol y DU rhag plâu a chlefydau estron penodol. Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi hysbysu arolygydd Hadau Iechyd Planhigion am bresenoldeb unrhyw bla planhigion nas ceir fel arfer ym Mhrydain Fawr ac sy'n debygol o fod yn niweidiol i blanhigion ym Mhrydain Fawr, neu sydd ar y rhestr o blâu sydd wedi'u gwahardd o'r Gymuned Ewropeaidd. Yng Nghymru, mae Gorchymyn Iechyd Planhigion yn ei gwneud yn bosibl i Hysbysiadau Iechyd Statudol gael eu cyflwyno gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion neu Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae cyfundrefn y Gorchymyn Iechyd Planhigion yn system reoleiddio ar wahân i Ddarpariaethau Rheoli Rhywogaethau a byddant yn parhau'n systemau rheoli sy'n gweithredu ar wahân.

[2] Rhywogaethau wedi'u hailgyflwyno heb drwydded, yn groes i Adran 14 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

[3] Mae Atodlen 9A o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn diffinio'r categori hwn o rywodaeth fel "an animal that is no longer normally present in Great Britain". At ddibenion y cod hwn, cyfeirir at y categori hwn o rywogaeth fel "rhywogaeth gynhenid a arferai breswylio yma".

# 2 Trosolwg o'r darpariaethau rheoli rhywogaethau

6. Diwygiodd Adran 23 o Ddeddf Seilwaith 2015 Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 drwy ychwanegu Atodlen 9A newydd er mwyn cyflwyno cyfundrefn statudol o gytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau er mwyn sicrhau bod tirfeddianwyr, dan amgylchiadau priodol, yn cymryd camau i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol a rhywogaethau cynhenid a arferai breswylio yma, neu ganiatáu i eraill fynd ar dir i gyflawni'r gweithrediadau hynny, er mwyn eu hatal rhag ymsefydlu ac ymledu. Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdodau amgylcheddol sydd â'r pwerau i wneud cytundebau neu orchmynion rheoli rhywogaethau yng Nghymru.

## 2.1 Nodi pwy sy'n gyfrifol am gydgysylltu

7. Dylai'r awdurdodau amgylcheddol gyfeirio at unrhyw brotocol ymateb cyflym er mwyn nodi pwy ddylai gydgysylltu unrhyw gamau gweithredu a all fod yn ofynnol o dan y darpariaethau hyn. Y corff cydgysylltu sy'n gyfrifol am gynnig cytundeb neu wneud gorchymyn.

8. Os yw awdurdod amgylcheddol eisoes yn cyllido camau gweithredu dan raglen ddileu sy'n bodoli eisoes, cyn i'r darpariaethau hyn ddod i rym, dylai'r awdurdod hwnnw barhau i fod yn gyfrifol am unrhyw fesurau ychwanegol sy'n ofynnol o dan y darpariaethau hyn.

## 2.2 Y broses bresennol

9. Ar hyn o bryd, gall awdurdodau amgylcheddol wneud trefniadau gwirfoddol â pherchenogion i gael mynediad i'w safleoedd er mwyn rheoli rhywogaethau estron goresgynnol. Mae'r trefniadau anffurfiol hyn wedi bod yn effeithiol yn y rhan fwyaf o achosion.

10. Os yw awdurdod amgylcheddol yn dymuno cael mynediad i safle, yna rhaid iddo geisio cytundeb â'r perchennog yn gyntaf o dan y dull anffurfiol cyfredol. Mae cytundeb a sicrheir fel hyn yn debygol o fod yn llai beichus i'r perchennog a'r awdurdod amgylcheddol.

## 2.3 Sut y caiff y darpariaethau hyn eu defnyddio

11. Os na fydd awdurdod amgylcheddol wedi llwyddo i sicrhau cytundeb y perchennog o fewn amser rhesymol ar sail anffurfiol, yna gallai ystyried defnyddio'r darpariaethau statudol hyn. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau statudol yn dal i ganolbwyntio ar negodi cytundebau gwirfoddol, lle bo'n ymarferol, ac mae'n rhaid i'r awdurdod amgylcheddol wneud ymdrechion rhesymol yn gyntaf i lunio cytundeb rheoli rhywogaeth effeithiol â pherchennog.

12. Fodd bynnag, os na fydd hyn yn bosibl, mae gan yr awdurdod amgylcheddol bwerau i wneud gorchymyn rheoli rhywogaeth i'w gwneud yn ofynnol i berchennog gymryd camau i fynd i'r afael â rhywogaeth estron oresgynnol (a rhywogaethau cynhenid a arferai breswylio yma), neu ganiatáu i'r awdurdod amgylcheddol wneud hynny.

## 2.4 Cwmpas y mesurau

13. Mae'r mesurau hyn yn cwmpasu unrhyw anifail nad yw ei gynefin naturiol yn cynnwys Prydain Fawr (h.y. rhywogaeth estron) lle y gellir dangos bod y fath rywogaethau naill ai'n oresgynnol, neu'n gallu bod felly. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r, anifeiliaid estron sydd wedi dod yn breswylwyr cyffredin ym Mhrydain Fawr ac sydd wedi'u rhestru yn Rhan 1 o Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

14. Gellir cymhwyso'r mesurau hyn hefyd at y rhywogaethau planhigion estron hynny sydd wedi'u rhestru yn Rhan 2 o Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

15. Maent hefyd yn cwmpasu anifeiliaid a ailgyflwynwyd yng Nghymru o fewn eu tiriogaeth naturiol ond nad ydynt yn bresennol yn y gwyllt mwyach, lle mae hyn i'w briodoli i weithredoedd didrwydded pobl. Mae hyn yn cynnwys anifeiliaid sydd wedi'u rhestru yn Rhan 1B o Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

16. Nid yw'r mesurau yn berthnasol i nifer fach o rywogaethau cynhenid yn Rhan 1A o Atodlen 9, sydd wedi'u rhestru yno er mwyn sicrhau bod unrhyw weithrediadau i'w rhyddhau i'r gwyllt yn cael eu cyflawni'n briodol.

17. Gellir defnyddio'r darpariaethau mewn amgylcheddau tir, dŵr croyw a morol.

18. Ceir Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a diffiniadau mewn perthynas â rhywogaethau fel y'u diffinnir yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn yr Atodiad.

### 2.4.1 Rhywogaethau sy’n cytrefu’n naturiol

19. O bryd i’w gilydd, bydd rhywogaethau sy’n cyrraedd Prydain Fawr yn naturiol wrth i’w tiriogaeth naturiol ehangu (e.e. yn sgil newid yn yr hinsawdd). Hefyd, mae’n bosibl y gallai rhywogaethau cynhenid sydd wedi diflannu o Brydain Fawr, ailgytrefu’n naturiol o rannau eraill o’u tiriogaeth naturiol rywbryd yn y dyfodol. Mae pob rhywogaeth o'r fath y tu allan i gwmpas y mesurau hyn gan y byddai'n cael ei hystyried yn rhywogaethau sydd o fewn ei thiriogaeth naturiol.

20. Fodd bynnag, pan fo rhywogaeth yn cytrefu Prydain Fawr o ardal sydd y tu allan i’w thiriogaeth naturiol, byddai’n dal i gael ei chwmpasu gan y darpariaethau. Er enghraifft, pe bai cacynen Asiaidd yn cyrraedd Cymru’n naturiol o Ffrainc lle cafodd ei chyflwyno’n ddamweiniol gan weithgarwch dynol o Tsieina, byddai’n parhau o fewn cwmpas y darpariaethau hyn gan nad yw ei thiriogaeth naturiol yn cynnwys Ffrainc.

### 2.4.2 Rhywogaethau cynhenid a arferai breswylio yma ac a ailgyflwynir

21. Mae anifeiliaid na fu’n bresennol ym Mhrydain Fawr ers cryn dipyn o amser (canrifoedd yn aml), fel y blaidd neu’r lyncs, yn wahanol i rywogaethau estron nad ydynt erioed wedi preswylio ym Mhrydain Fawr ac eithrio o ganlyniad i ymyrraeth dyn. Fodd bynnag, mae’r broses o ryddhau rhywogaethau cynhenid a arferai breswylio yma i’r gwyllt yn cael ei rheoleiddio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw niwed amgylcheddol, cymdeithasol nac economaidd nac unrhyw niwed i les yr unigolion eu hunain. Gall niwed neu ddifrod ddigwydd, er enghraifft, os yw'r lleoliad lle y rhyddheir y rhywogaeth yn anaddas neu os yw’r anifeiliaid yn cario clefyd neu barasitiaid niweidiol.

22. Gall ailgyflwyno’r rhywogaethau hyn fod yn gam cadwraeth pwysig iawn. Felly, caniateir ailgyflwyno rhywogaethau o dan drwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r mater er mwyn sicrhau bod rhywogaethau yn cael eu rhyddhau yn unol ag argymhellion rhyngwladol. Felly, nid yw cwmpas y mesurau hyn yn berthnasol i unrhyw un o’r rhywogaethau unigol hynny sydd yn y lleoliad hwnnw o ganlyniad i drwydded o’r fath.

23. Er hynny, os caiff rhywogaeth gynhenid a arferai breswylio yma ei rhyddhau mewn ardal heb drwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yna gallai darpariaethau rheoli rhywogaethau gael eu defnyddio, o bosibl, ar gyfer yr unigolion hynny. Mae hyn yn cynnwys rhywogaeth a ryddhawyd o dan drwydded mewn un lleoliad, ond sydd wedi’i thrawsleoli’n anghyfreithlon drwy ymyrraeth ddynol i leoliad arall. Wrth ddod â’r rhywogaethau hyn a ryddhawyd yn anghyfreithlon o fewn cwmpas y darpariaethau hyn, y nod yw mynd i’r afael ag amgylchiadau lle

maent wedi'u rhyddhau mewn ardal sy'n anaddas am ei bod yn debygol y bydd hynny'n cael effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd neu'n achosi niwed i les yr anifeiliaid eu hunain.

### 2.4.3 Gwarchod Rhywogaethau a Chynefinoedd

### Rhywogaethau a Chynefinoedd a Warchodir

24. Nid yw'r gofynion sy'n ymwneud â chytundebau neu orchmynion rheoli rhywogaethau a'r canllawiau hyn yn disodli unrhyw ofynion statudol eraill a all gyfyngu ar weithrediadau mewn perthynas â thir neu rywogaeth yr effeithir arno/arni nac yn effeithio ar unrhyw ofynion statudol o'r fath.

25. Mae'n rhaid i awdurdod amgylcheddol ystyried yr angen i gael trwydded rhywogaeth a warchodir gan Cyfoeth Naturiol Cymru pe gallai cytundeb neu orchymyn rheoli rhywogaeth effeithio ar rywogaeth a warchodir o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd neu ddomestig ynglŷn â bywyd gwyllt. Mae nifer o rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion wedi'u rhestru yn atodlenni 2 a 5 i Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, a/neu atodlenni 5 ac 8 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Gallai cyflawni gweithrediadau a allai anafu neu ladd rhywogaethau o'r fath neu darfu arnynt neu a allai amharu ar safleoedd bridio neu fannau gorffwys, fod yn droseddau oni chânt eu cynnal yn unol â thrwydded a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru

26. Dylai awdurdod amgylcheddol hefyd ystyried a allai gwaith gael effaith sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a ddynodwyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad a/neu Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd neu Gyfarwyddeb Adar yr UE, neu safle sydd wedi'i restru o dan gonfensiwn ‘Ramsar’ ar gadwraeth gwlyptiroedd.

27. O dan adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (fel y'i diwygiwyd), dylai awdurdod amgylcheddol hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw am unrhyw weithrediadau sy'n debygol o effeithio ar SoDdGA (hyd yn oed pe bai'r gweithrediadau yn cael eu cyflawni y tu allan i'r SoDdGA) ac ystyried cyngor CNC wrth benderfynu a ddylai'r gweithrediadau fynd rhagddynt.

28. Os yw'r gweithrediadau yn debygol o gael effaith sylweddol ar ACA neu AGA, mae'n rhaid i'r awdurdod gynnal asesiad priodol o'r goblygiadau i'r cynefin neu'r rhywogaeth benodol y mae'r AGA wedi'i ddynodi o'i herwydd ac, ar ôl ymgynghori â CNC, dim ond os na fyddant yn amharu ar gyfanrwydd y ACA neu'r AGA dan sylw y gall awdurdodi'r gweithrediadau. Wedyn, dim ond os nad oes unrhyw atebion amgen a bod angen cyflawni'r gweithrediadau am ‘resymau hanfodol sydd er budd cyhoeddus tra phwysig’ y gall gweithrediadau niweidiol

fynd rhagddynt. Fel mater o bolisi Llywodraeth Cymru, mae darpariaethau tebyg yn gymwys i weithrediadau sy'n debygol o effeithio ar safleoedd Ramsar.

### 2.4.4 Y prawf effaith andwyol ddifrifol

29. Cyfyngir ar gwmpas y mesurau hyn mewn perthynas â rhywogaethau estron goresgynnol gan brawf o b'un a yw'r rhywogaeth yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol, os na chaiff ei rheoli, ar fioamrywiaeth; buddiannau amgylcheddol eraill; neu fuddiannau cymdeithasol neu economaidd. Wrth benderfynu a yw rhywogaethau'n bodloni'r prawf hwn, rhaid i'r awdurdod amgylcheddol ystyried y wybodaeth sydd ar gael am ei heffeithiau tebygol, yn enwedig unrhyw asesiad risg a gynhaliwyd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr.

30. O ran y rhywogaethau estron a arferai breswylio yma, rhaid i'r awdurdod amgylcheddol gael tystiolaeth bod yr anifeiliaid yn cael effaith andwyol sylweddol ar (i) fioamrywiaeth; (ii) buddiannau amgylcheddol eraill, neu (iii) buddiannau cymdeithasol neu economaidd cyn y gall lunio cytundeb rheoli rhywogaeth.

### 2.4.5 Rhywogaethau estron eang eu gwasgariad

31. Dylai'r darpariaethau hyn gael eu defnyddio'n bennaf i ddileu rhywogaethau estron goresgynnol sydd naill ai newydd gyrraedd, neu rywogaethau gweddol gyfyngedig eu gwasgariad ond sydd â'r potensial i ledaenu'n llawer ehangach. Yn gyffredinol, ni fyddai ceisio defnyddio'r darpariaethau hyn i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol sydd eisoes wedi'u gwasgaru'n eang, yn ddefnydd priodol o'r pwerau hyn nac yn ddefnydd effeithiol o adnoddau. Efallai y bydd pwerau eraill yn fwy addas i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol eang eu gwasgariad, fel y rhai yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 sy'n caniatáu i awdurdod lleol neu'r heddlu wneud Hysbysiad Diogelu Cymunedol i fynd i'r afael â phroblemau neu niwsans parhaus sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd y gymuned.

32. Er hynny, o dan rai amgylchiadau, efallai y byddai cytundeb neu orchymyn rheoli rhywogaeth yn briodol ar gyfer rhywogaethau eang eu gwasgariad. Mae'r amgylchiadau fel a ganlyn:

- Pan fydd rhywogaeth estron oresgynnol eang ei gwasgariad yn cael ei dileu fel rhan o raglen ddileu a gymeradwywyd gan awdurdod amgylcheddol; 
- Pan fydd rhywogaeth estron oresgynnol eang ei gwasgariad newydd gyrraedd ardal ddaearyddol a'i bod yn bosibl ei dileu o hyd;
- Pan fydd rhywogaeth estron oresgynnol eang ei gwasgariad yn debygol o gael effaith andwyol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu safle Natura 2000.

**Astudiaeth Achos Enghreifftiol**

**Mae dail-ceiniog arnofiol yn blanhigyn dyfrol estron hynod oresgynnol eang ei wasgariad a all ddisodli planhigion cynhenid ac amharu ar systemau draenio a rheoli llifogydd, blocio dyfrffyrdd ac effeithio ar fordwyo a gweithgareddau hamdden. Cynhaliwyd asesiad risg ar gyfer y rhywogaeth hon. Mae dail ceiniog arnofiol wedi'u rhestru fel Rhywogaeth Estron Oresgynnol sy'n Destun Pryder i'r Undeb.**

**Mae awdurdod amgylcheddol yn cychwyn rhaglen i ddileu dail-ceiniog arnofiol ar lefel dalgylch, sy'n cynnwys nifer o dirfeddianwyr. Mae'r awdurdod amgylcheddol yn trefnu mynediad ar sail wirfoddol y tu allan i'r darpariaethau hyn, gyda'r tirfeddianwyr er mwyn cael gwared ar y rhywogaeth hon. Mae un tirfeddiannwr yn gwrthod rhoi mynediad i'r awdurdod amgylcheddol wneud y gwaith hwn ar ei dir, gan adael poblogaeth heb ei thrin o ddail-ceiniog arnofiol a allai ledaenu i ardaloedd cyfagos a pheryglu llwyddiant y rhaglen ddileu.**

**Er mwyn sicrhau bod modd cwblhau'r rhaglen ddileu ac na fydd ymdrechion tirfeddianwyr eraill yn mynd yn ofer, mae'r awdurdod amgylcheddol yn penderfynu y byddai'n gymesur cynnig cytundeb rheoli rhywogaeth i'r tirfeddiannwr o dan yr amgylchiadau hyn.**

### 2.4.6 Safle ac Annedd

33. Mae'r diffiniad presennol o safle neu "premises" sydd yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981[4] yn berthnasol i'r darpariaethau hyn. Mae'n nodi bod safle

[4] Adran 27 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)

yn cynnwys tir (gan gynnwys adeiladau), strwythurau symudol, cerbydau, cychod neu longau, awyrennau a dulliau teithio eraill.

34. At ddiben y darpariaethau hyn mae'r Ddeddf wedi diffinio “annedd’’ fel adeilad neu strwythur, neu ran o adeilad neu strwythur, a feddiennir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd.

## 2.5 Ystyriaethau o ran lles anifeiliaid

35. Mae’n hollbwysig bod pob gweithrediad rheoli rhywogaeth yn cael ei gyflawni yn unol â’r gofynion cyfreithiol o ran lles anifeiliaid fel y'u nodir yn Neddf Diogelu Anifeiliaid 1911, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf (Diogelu) Mamaliaid Gwyllt 1996, Deddf Lles Anifeiliaid 2006, y Cytundeb ar Safonau Rhyngwladol ar gyfer Trapio heb Greulondeb a Safonau Lles Anifeiliaid Sefydliadau Iechyd Anifeiliaid y Byd. Hefyd, rhaid i bob gweithrediad gael ei gyflawni yn unol ag arfer gorau er mwyn osgoi neu leihau poen, trallod neu ddioddefaint i’r anifail.

36. Os nad yw awdurdod amgylcheddol yn cyflawni'r gweithrediadau ei hun, rhaid iddo roi cyngor i'r perchennog neu’r parti sy’n cynnal y gweithrediadau ar y dull mwyaf priodol i'w ddefnyddio o ystyried y gofynion hyn.

## 2.6 Diogelu rhywogaethau nad ydynt wedi'u targedu

37. Dylai’r awdurdod cynllunio gytuno ar ddulliau sy’n cael gwared ar y rhywogaethau targed, lle bo’n ymarferol, tra’n lleihau effeithiau andwyol ar rywogaethau nad ydynt wedi'u targedu a heb amharu fawr ddim ar weithgareddau busnes cyfreithlon.

## 2.7 Adolygu darpariaethau rheoli rhywogaethau

38. Caiff Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr ei hadolygu bob pum mlynedd ac mae'n cynnwys adran ar ddarpariaethau deddfwriaethol. Caiff adolygiad o'r modd y rhoddir y pwerau hyn ar waith ei gynnwys fel rhan o’r adolygiad o'r Strategaeth a gynhelir bod pum mlynedd.

## 2.8 Cyhoeddi nifer y cytundebau a'r gorchmynion

39. Caiff gwybodaeth am faint o gytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau a wnaed ei chyhoeddi bob blwyddyn ar wefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr[5] ac ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru[6]. Dylai hefyd nodi nifer y cytundebau a’r gorchmynion rheoli rhywogaethau a gwblhawyd yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, eu diben, faint sy’n dal i fod mewn grym a pha rywogaethau a fu’n destun y darpariaethau hyn.

# 3 Cytundebau rheoli rhywogaethau

## 3.1 Beth yw cytundeb rheoli rhywogaeth?

40. Cytundeb gwirfoddol rhwng awdurdod amgylcheddol a pherchennog safle yw cytundeb rheoli rhywogaethau, sy’n nodi'r camau sydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â rhywogaeth estron oresgynnol neu rywogaeth gynhenid a arferai breswylio yno.□ Gallai’r perchennog fod yn rhydd-ddeiliad, yn lesddeiliad neu’n unigolyn sy’n arfer pwerau rheoli dros y tir.

41. Nid oes unrhyw gosb am fethu â chydymffurfio â chytundeb rheoli rhywogaeth, er y gallai methiant i gydymffurfio arwain at wneud gorchymyn rheoli rhywogaeth.□

## 3.2 Pwy all lunio cytundeb rheoli rhywogaeth?

42. Yng Nghymru, diffinnir Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru fel awdurdodau amgylcheddol o safbwynt y darpariaethau hyn.□ Gall y cyrff hyn lunio cytundeb rheoli rhywogaeth ag unrhyw berson sy'n berchen ar y safle.

43. Os bydd mwy nag un person yn berchen ar safle, rhaid i’r awdurdod amgylcheddol fod yn fodlon ei fod yn llunio'r cytundeb â’r perchennog mwyaf priodol.□ Er enghraifft, efallai y byddai lesddeiliad yn fwy addas na’r tirfeddiannwr os yw’r lesddeiliad yn chwarae mwy o ran yn y gwaith o reoli’r tir.

---

[5] http://www.nonnativespecies.org//home/index.cfm?

[6] http://www.bioamrywiaethcymru.org.uk/CARTREF

44. Pe gallai unrhyw weithrediadau angenrheidiol effeithio ar annedd breifat e.e. mae angen mynd i mewn i le yn y to, yna dim ond Gweinidogion Cymru all lunio cytundeb (ac unrhyw orchymyn dilynol).

45. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru hysbysu Gweinidogion Cymru cyn cynnig cytundeb rheoli rhywogaeth i berchennog. Fodd bynnag, nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw rôl yn y broses gwneud penderfyniadau, ac eithrio mewn perthynas â chytundebau a luniwyd ganddynt.

## 3.3 Pryd y dylai awdurdod amgylcheddol gynnig llunio cytundeb rheoli rhywogaeth?

46. Os yw'r awdurdod amgylcheddol o'r farn bod safle yn cynnwys rhywogaeth estron oresgynnol neu rywogaeth gynhenid a arferai breswylio yno a gwmpesir gan y darpariaethau hyn, a bod rheoli'r rhywogaethau hynny yn ddigon o flaenoriaeth ac yn ddigon ymarferol, yna rhaid iddo geisio dod i gytundeb anffurfiol â'r perchennog yn gyntaf[7]. Os na ellir dod i gytundeb, gall yr awdurdod amgylcheddol geisio llunio cytundeb rheoli rhywogaeth â'r perchennog (oni fydd y sefyllfa yn gofyn am weithredu ar fyrder[8]). Mater i'r awdurdod amgylcheddol yw penderfynu a yw rheoli'r rhywogaeth yn ddigon o flaenoriaeth ac yn ddigon ymarferol i gyfiawnhau cynnig cytundeb rheoli rhywogaeth i berchennog.

47. Wrth ddod i benderfyniad ynghylch a yw rhywogaeth yn ddigon o flaenoriaeth i gyfiawnhau cynnig cytundeb, mae Gweinidogion Cymru yn credu bod yn rhaid i'r awdurdod amgylcheddol ystyried y ffactorau canlynol:

- A yw'r rhywogaeth eisoes yn rhan o raglen ddileu genedlaethol neu leol a gymeradwywyd gan awdurdod amgylcheddol. Dylai rhywogaethau sy'n destun rhaglen ddileu genedlaethol gael eu hystyried yn awtomatig fel rhai sy'n ddigon o flaenoriaeth;
- Y dystiolaeth o unrhyw asesiad risg, yn enwedig rhai a gynhaliwyd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr;
- A yw'r rhywogaeth wedi'i rhestru fel rhywogaeth sy'n destun Pryder i'r Undeb o dan Reoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE[9];
- A yw'r rhywogaeth yn eang ei gwasgariad[10].

[7] Gweler adran 2.2

[8] Gweler Adran 4.5

[9] Gweler Erthygl 4 o Reoliad 1143/2014 yr UE ar Rywogaethau Estron Goresgynnol

[10] Gweler Adran 2.4.5

48. Wrth benderfynu a yw’n ymarferol rheoli’r rhywogaeth dan sylw, mae Gweinidogion Cymru yn credu bod yn rhaid i'r awdurdod amgylcheddol ystyried y ffactorau canlynol:

- Canlyniadau unrhyw ddadansoddiad rheoli risg o’r rhywogaeth a gynhaliwyd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr;
- Llwyddiant tebygol unrhyw weithrediadau;
- Pa mor debygol ydyw y bydd y rhywogaeth yn ailoresgyn y safle;
- Costau'r gweithrediadau, gan gynnwys unrhyw gostau a allai fod yn gysylltiedig â gweithgarwch rheoli parhaus yn y dyfodol.

49. Datblygu cynlluniau rheoli sy'n seiliedig ar ganllawiau arfer gorau a thystiolaeth neu os, nad yw'r rhain ar gael, gyngor gan arbenigwr priodol. Dylai cynlluniau gynnwys mesurau bioddiogelwch arfer gorau a ddylai fod ar waith ar y dechrau a thrwy gydol rhaglen reoli.

50. Os yw’r awdurdod amgylcheddol o’r farn bod rheoli'r rhywogaeth yn ymarferol ac yn ddigon o flaenoriaeth fel y dylid cynnig cytundeb rheoli rhywogaeth i berchennog, rhaid iddo hefyd fodloni ei hun bod y darpariaethau a nodir yn y cytundeb yn ymateb cymesurol i ymdrin â’r mater. Mae Gweinidogion Cymru yn credu bod angen i’r awdurdod amgylcheddol, wrth wneud y penderfyniad hwn, gadw’r ystyriaethau canlynol mewn cof:

- A allai dulliau nad ydynt yn rhai marwol i ddileu’r risg sy'n gysylltiedig â'r rhywogaeth fod yr un mor effeithiol â dulliau marwol;
- Yr effeithiau posibl ar rywogaethau a chynefinoedd nad ydynt wedi'u targedu;
- Yr effeithiau posibl ar weithgareddau busnes cyfreithlon.

51. Os bydd awdurdod amgylcheddol yn penderfynu cynnig cytundeb rheoli rhywogaeth i berchennog, dylai hysbysu Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw rôl yn y broses gwneud penderfyniadau, ac eithrio mewn perthynas â chytundebau a luniwyd ganddynt.

### 3.3.1 Rhywogaethau cynhenid a arferai breswylio yma

52. Mae gofynion ychwanegol i’r awdurdod amgylcheddol eu hystyried os yw'n bwriadu cynnig cytundeb rheoli rhywogaeth mewn perthynas â rhywogaeth gynhenid a arferai breswylio yma.

53. Rhaid i'r awdurdod amgylcheddol fod yn fodlon nad yw'r anifeiliaid dan sylw yn bresennol yn y gwyllt yn unol â thelerau trwydded a roddwyd gan Cyfoeth

Naturiol Cymru ar gyfer eu hailgyflwyno. Nid yw'r darpariaethau hyn yn cwmpasu anifeiliaid sy'n destun trwydded.

54. At hynny, dylai fod gan yr awdurdod amgylcheddol dystiolaeth sy’n dangos bod yr anifeiliaid yn cael effaith andwyol sylweddol ar (i) bioamrywiaeth; (ii) buddiannau amgylcheddol eraill, neu (iii) buddiannau cymdeithasol neu economaidd cyn y gall lunio cytundeb rheoli rhywogaeth. Mae hwn yn brawf gwahanol a llymach na’r un a ddefnyddir yn achos rhywogaethau estron goresgynnol, sydd ond yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod amgylcheddol nodi bod rhywogaeth, os na chaiff ei rheoli, “yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol”.

55. Hefyd, rhaid i’r awdurdod amgylcheddol fodloni ei hun nad oes ffordd briodol arall o atal yr effaith a gaiff y rhywogaeth honno. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i’r awdurdod amgylcheddol ystyried yr holl atebion posibl eraill i fynd i’r afael â’r effeithiau andwyol a achosir gan y rhywogaeth a chynnig cytundeb rheoli rhywogaeth dim ond os bydd y rhain wedi'u diystyru’n wrthrychol. Dylai'r awdurdod amgylcheddol benderfynu ar yr ystod a'r math o atebion amgen posibl y dylid eu hystyried ac arfer ei farn er mwyn penderfynu beth sy'n ymarferol mewn unrhyw achos penodol. Lle y bo angen, gall ymgynghori ag arbenigwyr eraill ynghylch opsiynau amgen posibl.

56. Dylid cyfyngu'r ystyriaeth a roddir i atebion amgen i opsiynau sy'n ymarferol yn ariannol ac yn dechnegol. Ni ddylid diystyru ateb amgen am y rheswm syml y byddai'n ddrutach neu'n achosi mwy o anghyfleustra. Fodd bynnag, deuai'r pwynt lle byddai ateb amgen mor ddrud neu mor anodd yn dechnegol fel y byddai'n afresymol ystyried ei fod yn ateb ymarferol. Yr awdurdod amgylcheddol sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad hwn yn seiliedig ar fanylion pob achos.

## 3.4 Yr hyn y mae'n rhaid i gytundeb rheoli rhywogaeth ei gynnwys

57. Wrth ddatblygu cytundeb rheoli rhywogaeth dylai'r awdurdod amgylcheddol gymryd camau i ymgysylltu'n gynnar â'r perchennog. Mae'n hanfodol bod yr awdurdod amgylcheddol yn cynnwys y perchennog yn llawn mewn trafodaethau ynghylch telerau'r cytundeb ac yn ystyried unrhyw bryderon cyn dod i gytundeb ag ef.

58. Mae'n rhaid i gytundeb rheoli rhywogaeth nodi'r canlynol yn glir:

- Y gweithrediadau rheoli rhywogaeth y mae'n ofynnol eu cyflawni;
- Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r gweithrediadau hyn – ai'r perchennog, yr awdurdod amgylcheddol, neu'r ddau;

- Erbyn pryd y dylid cyflawni'r gweithrediadau hyn.

59. Dylai cytundeb rheoli rhywogaeth hefyd gynnwys gwybodaeth atodol ychwanegol fel yr ystyrir yn briodol gan y partïon. Os yw'n berthnasol dylai'r wybodaeth hon gynnwys:

    - Sut y dylid cyflawni'r gweithrediadau – dylai pob gweithrediad gael ei gyflawni yn unol â chanllawiau arfer da a dylai roi sylw i ystyriaethau priodol o ran lles anifeiliaid a mesurau bioddiogelwch;
    - Unrhyw daliadau sydd i'w gwneud gan y naill barti i'r llall, neu i berson arall, mewn perthynas â gweithrediadau sydd i'w cyflawni;
    - Gweithrediadau na ddylid eu cyflawni – er enghraifft, gwahardd torri rhywogaeth planhigyn estron oresgynnol yn ystod cyfnod penodol.

## 3.5 Terfynu cytundeb

60. Mae cytundeb wedi'i derfynu i bob diben unwaith y bydd perchennog wedi cydymffurfio â phob un o'i ofynion. Er eglurder, mae'n rhaid i'r awdurdod amgylcheddol roi hysbysiad o gydymffurfiaeth i berchennog yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofynion. Dylai'r awdurdod amgylcheddol gyflwyno'r hysbysiad o gydymffurfiaeth i'r perchennog cyn pen 21 diwrnod ar ôl iddo ystyried bod y cytundeb wedi dod i ben.

61. Gall perchennog ofyn i'r awdurdod amgylcheddol gyflwyno hysbysiad o gydymffurfiaeth os bydd o'r farn ei fod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion mewn cytundeb ond na chyflwynwyd unrhyw hysbysiad o gydymffurfiaeth gan yr awdurdod amgylcheddol. Dylai'r awdurdod amgylcheddol ystyried y cais hwn ac ymateb i'r perchennog o fewn 21 diwrnod i dderbyn y cais.

62. Dylai'r awdurdod amgylcheddol naill ai:

    a) Cyflwyno'r hysbysiad; neu
    b) Gwrthod cyflwyno'r hysbysiad, gan nodi'r gweithrediadau sydd angen eu cwblhau o hyd fel rhan o'r cytundeb gwreiddiol.

# 4 Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau

## 4.1 Pryd y gall awdurdod amgylcheddol wneud gorchymyn rheoli rhywogaeth

63. Mae Adran 14(4A) O Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac Atodlen 9A i'r Ddeddf honno yn rhoi pwerau i awdurdod amgylcheddol wneud gorchymyn rheoli rhywogaeth mewn perthynas â rhywogaeth estron oresgynnol neu rywogaeth gynhedid a arferai breswyl yma o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

- Os bydd 42 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r awdurdod amgylcheddol wneud cynnig yn ysgrifenedig i'r perchennog i lunio cytundeb rheoli rhywogaeth ond nad yw'r cytundeb wedi'i lunio a bod yr awdurdod amgylcheddol yn ystyried ei bod yn annhebygol y bydd y perchennog yn llunio unrhyw gytundeb o'r fath;
- Os bydd y perchennog wedi gwrthod llunio unrhyw fath o gytundeb rheoli rhywogaeth. Dylai'r awdurdod amgylcheddol ofyn i'r perchennog gadarnhau hyn yn ysgrifenedig;
- Os bydd perchennog wedi methu â chydymffurfio â chytundeb rheoli rhywogaeth ac, ar ôl cael cyfle rhesymol i unioni'r methiant, nad yw wedi gwneud hynny;
- Os na fydd yr awdurdod amgylcheddol wedi llwyddo i nodi perchennog ac, felly, nad yw wedi llwyddo i gyflawni cytundeb rheoli rhywogaeth[11];
- Os bydd awdurdod amgylcheddol o'r farn bod angen llunio cytundeb rheoli rhywogaeth ar fyrder ac, felly, y dylid hepgor y broses gytuno.

64. Wrth ystyried a ddylai wneud gorchymyn rheoli rhywogaeth, dim ond ar ôl penderfynu bod y darpariaethau a nodir yn y gorchymyn yn ymateb cymesur i ymdrin â'r mater y gall yr awdurdod amgylcheddol fynd ymlaen i wneud y gorchymyn. Mae'r ffactorau y dylai'r awdurdod amgylcheddol eu hystyried yr un fath â'r rhai a nodir mewn perthynas â chytundebau rheoli rhywogaethau[12].

65. Mae profion ychwanegol i'w bodloni mewn perthynas â rhywogaethau a arferai breswylio yma cyn y gall awdurdod amgylcheddol fynd ymlaen i wneud

[11] Gweler adran 4.1.1

[12] Gweler adran 3.3

gorchymyn rheoli rhywogaeth. Mae'r profion hyn yr un fath â'r rhai sydd angen eu bodloni cyn y gellir cynnig cytundeb rheoli rhywogaeth[13].

66. Pan fydd awdurdod amgylcheddol yn ystyried cyflwyno gorchymyn rheoli rhywogaeth dylai drafod hyn â'r perchennog yn gyntaf a rhoi cyfle i'r perchennog ddatrys unrhyw faterion nad ymdriniwyd â hwy. Cyn cyflwyno gorchymyn rheoli rhywogaeth, dylai awdurdod amgylcheddol ysgrifennu'n ffurfiol at y perchennog, esbonio diben y gorchymyn rheoli rhywogaeth a'r canlyniadau posibl pe bai perchennog yn methu â chydymffurfio ag ef.

67. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru hysbysu Gweinidogion Cymru cyn gwneud gorchymyn rheoli rhywogaeth. Fodd bynnag, nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw rôl yn y broses gwneud penderfyniadau, ac eithrio mewn perthynas â gorchmynion a wnaed ganddynt.

### 4.1.1 Dim perchennog hysbys

68. Os na fydd yr awdurdod amgylcheddol wedi llwyddo i nodi perchennog, rhaid iddo osod hysbysiad amlwg ar y safle yn datgan ei fod am lunio cytundeb rheoli rhywogaeth ac aros o leiaf bum diwrnod cyn gwneud gorchymyn os na ddaw unrhyw berchennog ymlaen. Yn yr achosion hyn, rhaid i'r awdurdod amgylcheddol wneud ymdrechion rhesymol i nodi perchennog cyn mynd ymlaen i roi hysbysiad ar y safle. Dylid cynnal Chwiliad gyda'r Gofrestr Tir, o leiaf. Cyn gosod hysbysiad neu fynd ar y safle mae angen i awdurdod amgylcheddol gael gwarant gan Ynad Heddwch. Gall awdurdod amgylcheddol fynd ar y safle a dechrau gweithio os bydd y cyfnod ar gyfer gwneud apêl wedi dod i ben (sef 28 diwrnod ar hyn o bryd) ac na fydd unrhyw berchennog wedi cyflwyno apêl.

## 4.2 Yr hyn y dylai gorchymyn rheoli rhywogaeth ei gynnwys

69. Mae'n rhaid i orchymyn rheoli rhywogaeth wneud y canlynol:

- Nodi'r rhywogaeth y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef;
- Nodi'r gweithrediadau sydd i'w cyflawni;
- Nodi pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r gweithrediadau rheoli rhywogaeth;
- Nodi erbyn pryd y mae'n rhaid i'r gweithrediadau gael eu cyflawni, neu y bwriedir iddynt gael eu cyflawni, gan yr awdurdod amgylcheddol.

[13] Gweler adran 3.3.1

70. Ni all y Gorchymyn nodi bod yn rhaid i'r gweithrediadau gael eu cyflawni nes i'r cyfnod ar gyfer gwneud apêl ddod i ben, oni bai ei fod yn orchymyn rheoli rhywogaeth brys.

71. Os yw'n briodol, dylid cynnwys map o'r safle y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef.

72. Os yw'n berthnasol, dylai gorchymyn rheoli rhywogaeth hefyd gynnwys:

- Sut y dylid cyflawni'r gweithrediadau hyn;
- Unrhyw daliadau y mae'n rhaid i'r awdurdod amgylcheddol eu gwneud i'r perchennog neu berson arall ar gyfer costau rhesymol y gweithrediadau;
- Unrhyw daliadau y mae'n rhaid i'r perchennog eu gwneud i'r awdurdod amgylcheddol ar gyfer costau rhesymol y gweithrediadau.
- Unrhyw weithrediadau na ddylai'r perchennog eu cyflawni;
- Unrhyw bersonau sy'n cyflawni'r gweithrediadau ar ran yr awdurdod amgylcheddol.

## 4.3 Gofynion hysbysu

73. Lle y bo'n bosibl, rhaid i'r awdurdod amgylcheddol roi hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i gyflwyno gorchymyn i unrhyw barti sy'n berchen ar y safle y mae'n ymwybodol ohono, nid dim ond y perchennog y mae'r gorchymyn yn gosod gofynion arno. Y rheswm dros hyn yw bod gan unrhyw barti sy'n berchen ar y safle hawl i apelio yn erbyn y gorchymyn. Rhaid i'r awdurdod amgylcheddol wneud ymdrechion rhesymol i nodi holl berchenogion hysbys y safle, gan gynnwys cynnal chwiliadau gyda'r Gofrestrfa Tir.

74. At hynny, rhaid hysbysu Gweinidogion Cymru (oni bai mai hwy yw'r awdurdod amgylcheddol sy'n gwneud y gorchymyn).

## 4.4 Pan ddaw'r gorchymyn i rym

75. Oni chaiff ei wneud o dan y ddarpariaeth frys[14], ni all gorchymyn rheoli rhywogaeth ei gwneud yn ofynnol i berchennog gyflawni gweithrediadau rheoli

[14] Gweler adran 4.5

rhywogaeth na chaniatáu i'r awdurdod amgylcheddol wneud hynny cyn i'r terfyn amser cymwys[15], sef 28 diwrnod, ar gyfer gwneud apêl ddod i ben.

76. Os caiff apêl yn erbyn gorchymyn ei gwneud erbyn terfyn amser y Tribiwnlys Haen Gyntaf, nid yw'n ofynnol i'r perchennog gyflawni'r gweithrediadau rheoli rhywogaeth, ac ni ddylai'r awdurdod amgylcheddol wneud hynny, nes i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf benderfynu ar yr apêl neu nes i'r apêl gael ei thynnu'n ôl gan y perchennog. Nod y Tribiwnlys Haen Gyntaf yw cynnal apêl o fewn 30 diwrnod iddi gael ei chyflwyno gan y perchennog.

## 4.5 Gorchmynion rheoli rhywogaethau brys

77. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai awdurdod amgylcheddol ddilyn y gweithdrefnau ar gyfer gwneud gorchymyn rheoli rhywogaeth yn y ffordd arferol fel y nodir uchod. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau eithriadol lle y gallai fod gan awdurdod amgylcheddol gyfiawnhad dros wneud "gorchymyn rheoli rhywogaeth brys" o dan ddarpariaethau paragraff 10(2)(c) o Atodlen 9A i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

78. Os bydd awdurdod amgylcheddol yn pryderu y byddai unrhyw oedi cyn cyflawni gweithrediad rheoli rhywogaeth yn debygol o danseilio ei amcanion mewn perthynas â'r rhywogaeth honno yn sylweddol, yna efallai y bydd yn gwneud "gorchymyn rheoli rhywogaeth brys".

79. Rhaid i'r awdurdod amgylcheddol benderfynu a yw'r rhywogaeth yn ddigon o flaenoriaeth fel y dylai gael ei rheoli, bod modd ei rheoli a bod y camau gweithredu yn gymesur i gyfiawnhau gwneud "gorchmynion rheoli rhywogaethau brys", gan ystyried yr un ffactorau ag a nodir mewn perthynas â chytundebau rheoli rhywogaethau[16] a hefyd a oes unrhyw gynllun wrth gefn ar gael ar gyfer y rhywogaeth.

80. Wrth benderfynu a ddylid gwneud "gorchymyn rheoli rhywogaeth brys", dylai'r awdurdod amgylcheddol hefyd arfer egwyddor 'er budd cyhoeddus tra phwysig', h.y. ni ddylai wneud "gorchymyn rheoli rhywogaeth brys" oni fydd yn fodlon bod gwneud hynny yn amlwg er budd y cyhoedd a bod budd y cyhoedd yn bwysicach na buddiannau preifat y perchennog y'i cyflwynir iddo, er enghraifft mewn achosion lle y gall y rhywogaeth ymledu'n gyflym os na chaiff ei dileu cyn

---

[15] Caiff y terfynau amser ar gyfer apeliadau eu pennu gan Reolau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf; ar hyn o bryd mae 28 diwrnod yn gymwys i apeliadau yn erbyn gorchmynion rheoli rhywogaethau. Am ragor o wybodaeth am sut a phryd y dylid cyflwyno apêl, gweler Rheol 22 o Reolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys Haen Gyntaf)(Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009 (O.S. 2009/1976) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2014/2128.

[16] Gweler adran 3.3

gynted â phosibl. Defnyddir prawf effaith andwyol sylweddol[17] i nodi a oes unrhyw fudd cyhoeddus tra phwysig. At hynny, os yw'r rhywogaeth dan sylw yn rhywogaeth sydd o ddiddordeb i'r Gymuned, mae gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn gymwys o hyd.

81. Gall “gorchymyn rheoli rhywogaeth brys” ddod i rym ar unwaith, er y gall unrhyw berchennog apelio yn ei erbyn o hyd ac, o dan yr amgylchiadau hynny, mae gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf y pŵer i atal y gorchymyn dros dro.

**Astudiaeth Achos Enghreifftiol**

**Mae’r awdurdod amgylcheddol yn cael adroddiad credadwy am nyth gacwn Asiaidd ar dir perchennog. Mae’r awdurdod amgylcheddol yn fodlon, ar sail yr asesiad risg a luniwyd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr, fod y rhywogaeth yn debygol o gael effeithiau andwyol sylweddol ar fioamrywiaeth a buddiannau cymdeithasol ac economaidd. Mae hefyd yn fodlon bod y rhywogaeth yn ddigon o flaenoriaeth i gyfiawnhau camau gweithredu gan fod cynllun wrth gefn cenedlaethol ar waith ar ei chyfer, a bod dileu'r rhywogaeth honno yn opsiwn ymarferol.**

**Oherwydd bod y gacynen Asiaidd yn rhywogaeth estron oresgynnol hynod symudol, mae’r awdurdod amgylcheddol yn penderfynu bod angen ei dileu ar unwaith gan y gallai ymsefydlu a lledaenu’n gyflym.** Mae’r perchennog yn gwrthod caniatáu i’r awdurdod amgylcheddol gael mynediad i’w dir er mwyn cadarnhau presenoldeb y rhywogaeth hon. **Mae’r awdurdod amgylcheddol o’r farn bod y bygythiad a berir gan y rhywogaeth hon gymaint fel na all aros i’r broses gytuno gael ei chwblhau. Mae’n penderfynu bod rhesymau er budd cyhoeddus tra phwysig dros wneud gorchymyn rheoli rhywogaethau dan y darpariaethau brys. Mae’n penderfynu bod manylion y gweithrediadau a nodir yn y gorchymyn - sef gweithgarwch cadw golwg, wedi'i ddilyn gan raglen ddileu os cadarnheir bod y rhywogaeth ar y tir- yn gymesur.**

# 4.6 Dirymu Gorchymyn Rheoli Rhywogaeth yn Ôl

82. Gall awdurdod amgylcheddol ddirymu gorchymyn rheoli rhywogaeth unrhyw bryd. Efallai y bydd angen dirymu gorchymyn os bydd yr awdurdod amgylcheddol yn penderfynu nad yw'r gorchymyn at addas at y diben mwyach a'i fod am roi gorchymyn newydd yn ei le. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai'n

[17] Gweler adran 2.4.4

rhaid i'r awdurdod amgylcheddol ddirymu'r gorchymyn a dechrau'r broses o'r newydd.

## 4.7 Terfynu gorchymyn

83. Mae gorchymyn wedi'i derfynu i bob diben unwaith y bydd perchennog wedi cydymffurfio â phob un o'i ofynion. Er eglurder, mae'n rhaid i'r awdurdod amgylcheddol roi hysbysiad o gydymffurfiaeth i berchennog yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofynion. Dylai'r awdurdod amgylcheddol gyflwyno'r hysbysiad o gydymffurfiaeth i'r perchennog cyn pen 21 diwrnod ar ôl iddo ystyried bod y perchennog wedi cydymffurfio ag ef. Dylid anfon copi o'r hysbysiad hwn at Weinidogion Cymru.

84. Gall perchennog ofyn i'r awdurdod amgylcheddol gyflwyno hysbysiad o gydymffurfiaeth os bydd o'r farn ei fod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion mewn gorchymyn ond na chyflwynwyd unrhyw hysbysiad o gydymffurfiaeth gan yr awdurdod amgylcheddol. Dylai'r awdurdod amgylcheddol ystyried y cais hwn ac ymateb i'r perchennog o fewn 21 diwrnod i dderbyn y cais.

85. Dylai'r awdurdod amgylcheddol naill ai:

    a) Cyflwyno'r hysbysiad; neu

    b) Gwrthod cyflwyno'r hysbysiad, gan nodi'r gweithrediadau sydd angen eu cwblhau o hyd fel rhan o'r gorchymyn.

# 5 Pwerau mynediad, gorfodi, troseddau a chosbau

## 5.1 Pwerau Mynediad

86. Gall awdurdod amgylcheddol awdurdodi'r defnydd o bwerau mynediad er mwyn gwneud y canlynol:

- penderfynu a ddylid cynnig cytundeb rheoli rhywogaeth, pan fydd ganddo achos rhesymol dros amau presenoldeb rhywogaethau estron oresgynnol neu rywogaeth a arferai breswylio yma;
- penderfynu a ddylid gwneud neu ddirymu gorchymyn rheoli rhywogaeth, os bydd ganddo achos rhesymol dros amau presenoldeb rhywogaethau estron oresgynnol neu anifeiliaid a ailgyflwynwyd heb drwydded;
- ymchwilio i achosion a amheuir o fethu â chydymffurfio â chytundeb neu orchymyn rheoli rhywogaeth;
- cyflawni gweithrediadau rheoli rhywogaeth o dan orchymyn rheoli rhywogaeth;
- gosod hysbysiad ar y safle os na fydd wedi llwyddo i hysbysu'r perchennog;
- cyflawni gweithrediadau neu waith ei hun (neu ei gwneud yn bosibl iddynt gael eu cyflawni gan bersonau sy'n cyflawni'r gweithrediadau ar ran yr awdurdod amgylcheddol) yn dilyn methiant i gydymffurfio â gorchymyn rheoli rhywogaeth.

87. Gellir arfer yr hawliau mynediad hyn ar unrhyw adeg resymol. O dan amgylchiadau penodol mae'n bosibl y bydd angen cael gwarant gan ynad heddwch er mwyn arfer yr hawliau mynediad, sef:

a) pan fo'r safle yn annedd;
b) pan fo'r perchennog wedi gwrthod mynediad i'r safle neu pan ellir tybio'n rhesymol y bydd yn gwneud hynny;
c) pan fo'r safle yn wag;
d) pan fo'r perchennog yn absennol dros dro;

e) pan fyddai rhoi rhybudd yn mynd yn groes i ddiben cael mynediad e.e. os bydd gan yr awdurdod amgylcheddol reswm dros gredu y gallai'r perchennog gael gwared ar y rhywogaeth mewn modd amhriodol;

f) pan fo angen cael mynediad i safle mewn perthynas â gorchymyn rheoli rhywogaeth brys;

g) pan na fu'n bosibl dod o hyd i unrhyw berchennog;

h) pan fo angen cael mynediad i safle er mwyn gosod hysbysiad pan na fu'n bosibl dod o hyd i unrhyw berchennog;

i) pan fo angen cael mynediad i safle er mwyn cyflawni gweithrediadau ar frys os bydd yr awdurdod amgylcheddol o'r farn nad yw'r perchennog wedi cydymffurfio â gorchymyn.

88. O dan amgylchiadau (a)-(d) uchod, ni chaiff Ynad Heddwch roi gwarant oni fydd yn fodlon bod o leiaf 48 awr o rybudd wedi'i roi i bob perchennog hysbys o'r bwriad i fynd ar y safle. Os na ellir dod o hyd i unrhyw berchennog, dim ond os bydd yn fodlon bod yr awdurdod amgylcheddol wedi gosod hysbysiad o'r gorchymyn ar y safle mewn man amlwg y caiff yr Ynad Heddwch roi gwarant.

89. Caiff person a awdurdodwyd gan awdurdod amgylcheddol i arfer pŵer mynediad fynd â phobl eraill gydag ef ar y safle yn ôl yr angen; mynd ag unrhyw offer, peirianwaith neu ddeunyddiau gydag ef ar y safle; a gall gymryd unrhyw samplau o unrhyw beth yn yr adeilad neu ar y safle. Fodd bynnag, dylai'r awdurdod amgylcheddol arfer y pwerau hyn yn bwyllog a sicrhau y terfir cyn lleied â phosibl ar y perchennog.

## 5.2 Gorfodi

90. Gall awdurdod amgylcheddol gymryd camau os bydd o'r farn nad yw’r perchennog y mae'n ofynnol iddo gyflawni gweithrediad o dan orchymyn rheoli rhywogaeth wedi gwneud hynny erbyn y dyddiad neu yn y ffordd a nodir gan y gorchymyn. O dan yr amgylchiadau hyn, gall gyflawni’r gweithrediad, neu'r cyfryw waith pellach ag sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau bod y gweithrediad yn cael ei gyflawni yn y ffordd a nodir gan y gorchymyn; ac adennill gan y perchennog unrhyw dreuliau rhesymol yr aed iddynt, llai unrhyw swm y byddai wedi bod yn ofynnol iddo ei dalu i'r perchennog er mwyn cyflawni'r gweithrediadau.

91. Fodd bynnag, cyn i awdurdod amgylcheddol weithredu fel hyn, mae'n rhaid iddo hysbysu'r perchennog, gan nodi'n ysgrifenedig pam mae o'r farn bod y gorchymyn wedi'i dorri a rhoi wythnos i'r perchennog gyflawni'r gweithrediadau. Dylai'r awdurdod amgylcheddol ystyried ymestyn y cyfnod hwn os bydd sail

resymol dros wneud hynny e.e. tywydd gwael yn atal y gweithrediadau rhag cael eu cwblhau.

## 5.3 Troseddau a chosbau

92. O dan baragraff 19 o Atodlen 9A mae'n drosedd i berson wneud y canlynol:

- Heb esgus rhesymol, methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir arno gan orchymyn rheoli rhywogaeth;
- Atal person rhag cyflawni gweithrediad sy'n ofynnol neu a fwriedir o dan orchymyn rheoli rhywogaeth, a hynny'n fwriadol.

93. Mae person sy'n euog o'r naill drosedd neu'r llall, o'i gollfarnu'n ddiannod, yn atebol i gyfnod o garchar nad yw'n hwy na 51 wythnos, neu ddirwy, neu'r ddau. Os cyflawnir trosedd cyn i adran 281(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ddod i rym, ni all y cyfnod o garchar fod yn hwy na chwe mis.

94. Os na fydd perchennog yn siŵr a yw ei esgus yn rhesymol bydd yr awdurdod amgylcheddol yn dweud wrtho am geisio cyngor cyfreithiol.

# 6 Cyfrifoldeb am gostau ac iawndal

## 6.1 Cyfrifoldeb am gostau gweithrediadau rheoli rhywogaeth

95. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, nid perchennog safle fydd wedi bod yn gyfrifol am gyflwyno'r rhywogaeth a geir ar ei safle. O dan yr amgylchiadau hynny, yr awdurdod amgylcheddol fydd yn talu costau pob gweithrediad. Fodd bynnag, os bydd tirfeddiannwr yn torri gorchymyn rheoli rhywogaeth gallai hyn arwain at gamau gorfodi a chost ychwanegol a all gael ei hadennill gan yr Awdurdod Amgylcheddol[18].

[18] Gweler adran 5.2

**Astudiaeth Achos Enghreifftiol**

**Mae'r awdurdod amgylcheddol yn llunio cytundeb rheoli rhywogaeth â pherchennog i gael gwared ar baracitiaid ('monk') sy'n nythu yn ei ardd. Nid y perchennog oedd yn gyfrifol o gwbl am ryddhau'r adar i'r gwyllt yn y lle cyntaf. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr awdurdod amgylcheddol yn talu holl gostau'r gwaith.**

96. Fodd bynnag, pan fo tystiolaeth glir bod y tirfeddiannwr yn rhyddhau'r rhywogaeth ar ei safle neu'n caniatáu i'r rhywogaeth ddianc ar ei safle[19], yna y tirfeddiannwr sy'n atebol am dalu costau'r gweithrediadau. Bydd gan dirfeddiannwr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn unrhyw atebolrwydd i dalu costau a restrir ar y gorchymyn rheoli rhywogaethau[20].

**Astudiaeth Achos Enghreifftiol**

**Mae'r awdurdod amgylcheddol yn ymwybodol bod llygod y paith yn dianc yn aml i'r gwyllt o barc bywyd gwyllt gan nad ydynt yn cael eu cadw'n briodol. Mae'r awdurdod amgylcheddol yn llunio cytundeb rheoli rhywogaeth â'r parc bywyd gwyllt gan nodi gofyniad i wella ffensys. Y parc bywyd gwyllt sy'n gyfrifol am dalu cost y gwaith ffensio gan mai ef sy'n gyfrifol am y ffaith bod yr anifeiliaid yn dianc i'r gwyllt.**

## 6.2 Iawndal

97. Mae paragraff 25 o Atodlen 9A yn darparu pŵer dewisol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i dalu iawndal i berchennog am golled ariannol. Mae paragraff 25 o Atodlen 9A hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu isafswm ar gyfer ystyried hawliadau. Dylid cyflwyno pob hawliad yn uniongyrchol ac yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

98. Mae'r rhan fwyaf o rywogaethau sy'n destun gweithrediadau rheoli yn rhai gwyllt ac, felly, nid ydynt yn perthyn i unrhyw berchennog. Os ydynt yn perthyn i

---

[19] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69/section/14

[20] Gweler adran 4.2

berchennog (e.e. anifail sydd wedi dianc o sw neu barc bywyd gwyllt), mae'n bosibl eu bod yn bresennol yn y gwyllt o ganlyniad i'r ffaith bod rhywun wedi cyflawni trosedd o dan adran 14 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, sy'n rheoleiddio gweithgarwch rhyddhau rhywogaethau i'r gwyllt. O dan yr amgylchiadau hyn, ni ddisgwylir i iawndal gael ei dalu am golli unrhyw rywogaeth.

99. Dylai iawndal fod yn daladwy os caiff eiddo ei ddifrodi gan weithrediadau a gyflawnir o dan gytundeb neu orchymyn rheoli rhywogaeth pan nad yw'r perchennog na'r deiliad ar fai am y ffaith bod y rhywogaeth ar y safle.

## 6.3 Anghydfodau

100. Os bydd anghydfod yn codi rhwng awdurdod amgylcheddol a pherchennog nad yw'n rhan o'r broses apelio statudol, dylai'r awdurdod amgylcheddol geisio mynd i'r afael â mater drwy ei weithdrefnau datrys anghydfodau arferol.

# 7 Hawl i apelio

101. Mae gan unrhyw barti sy'n berchen ar y safle hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i wneud gorchymyn rheoli rhywogaethau neu unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo, nid dim ond y perchennog y mae'r gorchymyn yn gosod gofynion arno. Mae’n rhaid cyflwyno apêl i’r Tribiwnlys Haen Gyntaf o fewn y terfyn amser a bennwyd gan ei reolau statudol, sef 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno’r gorchymyn ar hyn o bryd.

102. Gall y Tribiwnlys Haen Gyntaf wneud y canlynol:

- cadarnhau'r gorchymyn;
- cyfarwyddo'r awdurdod amgylcheddol i ddirymu neu ddiwygio'r gorchymyn;
- yn achos gorchymyn rheoli rhywogaeth brys, atal y gorchymyn; neu
- wneud y cyfryw orchymyn arall ag sy'n briodol, ym marn y Tribiwnlys.

# 8 Atodiad

## Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

### Anifeiliaid a phlanhigion y mae adran 14 yn gymwys iddynt

Rhan I – Rhywogaethau estron

| Enw cyffredin | Enw gwyddonol |
| --- | --- |
| Bass, Large mouthed Black | *Micropterus salmoides* |
| Bass, Rock | *Ambloplites rupestris* |
| Bitterling | *Rhodeus sericeus* |
| Crab, Chinese Mitten | *Eriocheir sinensis* |
| Crayfish, Noble | *Astacus astacus* |
| Crayfish, Red Swamp | *Procambarus clarkii* |
| Crayfish, Signal | *Pacifastacus leniusculus* |
| Crayfish, Spiny-cheek | *Orconectes limosus* |
| Crayfish, Turkish | *Astacus leptodactylus* |
| Deer, Chinese Water | *Hydropotes inermis* |
| Deer, Muntjac | *Muntiacus reevesi* |
| Deer, Sika | *Cervus nippon* |
| Deer, any hybrid of Sika | *Any hybrid of Cervus nippon, Cervus and any hybrid of the genus Cervus* |
| Dormouse, Fat | *Glis glis* |
| Duck, Carolina Wood | *Aix sponsa* |
| Duck, Mandarin | *Aix galericulata* |
| Duck, Ruddy | *Oxyura jamaicensis* |
| Flatworm | *Kontikia andersoni* |
| Flatworm | *Kontikia ventrolineata* |
| Flatworm, Australian | *Australoplana sanguinea* |
| Flatworm, New Zealand | *Artiposthia triangulata* |
| Frog, Edible | *Rana esculenta* |
| Frog, European Tree (or Common Tree Frog) | *Hyla arborea* |
| Frog, Marsh | *Rana ridibunda* |
| Goose, Bar-headed | *Anser indicus* |
| Goose, Barnacle | *Branta leucopsis* |
| Goose, Canada | *Branta canadensis* |
| Goose, Egyptian | *Alopochen aegyptiacus* |
| Goose, Emperor | *Anser canagicus* |
| Goose, Snow | *Anser caerulescens* |
| Heron, Night | *Nycticorax nycticorax* |
| Limpet, Slipper | *Crepidula fornicata* |
| Lizard, Common Wall | *Podarcis muralis* |

| | |
|---|---|
| Marmot, Prairie (or Prairie dog) | *Cynomys* |
| Mink, American | *Mustela vison* |
| Newt, Alpine | *Triturus alpestris* |
| Newt, Italian Crested | *Triturus carnifex* |
| Owl, Eagle | *Bubo bubo* |
| Oyster Drill, American | *Urosalpinx cinerea* |
| Parakeet, Monk | *Myiopsitta monachus* |
| Parakeet, Ring-necked | *Psittacula krameri* |
| Partridge, Chukar | *Alectoris chukar* |
| Partridge, Rock | *Alectoris graeca* |
| Pheasant, Golden | *Chrysolophus pictus* |
| Pheasant, Lady Amherst's | *Chrysolophus amherstiae* |
| Pheasant, Reeves' | *Syrmaticus reevesii* |
| Pheasant, Silver | *Lophura nycthemera* |
| Pochard, Red-crested | *Netta rufina* |
| Pumpkinseed (or Sun-fish or Pond-perch) | *Lepomis gibbosus* |
| Rat, Black | *Rattus rattus* |
| Shelduck, Ruddy | *Tadorna ferruginea* |
| Snake, Aesculapian | *Elaphe longissima* |
| Squirrel, Grey | *Sciurus carolinensis* |
| Swan, Black | *Cygnus atratus* |
| Terrapin, European Pond | *Emys orbicularis* |
| Toad, African Clawed | *Xenopus laevis* |
| Toad, Midwife | *Alytes obstetricans* |
| Toad, Yellow-bellied | *Bombina variegata* |
| Wallaby, Red-necked | *Macropus rufogriseus* |
| Wels (or European catfish) | *Silurus glanis* |
| Zander | *Stizostedion lucioperca* |

## Rhan 1A – Anifeiliaid cynhenid

### Rhywogaethau cynhenid

| **Enw cyffredin** | **Enw gwyddonol** |
|---|---|
| Capercaillie | *Tetrao urogallus* |
| Chough | *Pyrrhocorax pyrrhocorax* |
| Crane, Common | *Grus grus* |
| Corncrake | *Crex crex* |
| Eagle, White-tailed | *Haliaetus albicilla* |
| Goshawk | *Accipiter gentilis* |
| Kite, Red | *Milvus milvus* |
| Owl, Barn | *Tyto alba* |

## Rhan 1B – Anifeiliaid nad ydynt yn bresennol mwyach fel arfer

### Rhywogaethau cynhenid a arferai breswylio yma

| **Enw cyffredin** | **Enw gwyddonol** |
|---|---|
| Beaver, Eurasian | *Castor fiber* |
| Boar, Wild | *Sus scrofa* |

## Rhan 2

### Planhigion – Rhywogaethau estron

| **Enw cyffredin** | **Enw gwyddonol** |
|---|---|
| Alexanders, Perfoliate | *Smyrnium perfoliatum* |
| Algae, Red | *Grateloupia luxurians* |
| Archangel, Variegated Yellow | *Lamiastrum galeobdolon subsp. argentatum* |
| Azalea, Yellow | *Rhododendron luteum* |
| Balsam, Himalayan | *Impatiens glandulifera* |
| Cotoneaster | *Cotoneaster horizontalis* |
| Cotoneaster, Entire-leaved | *Cotoneaster integrifolius* |
| Cotoneaster, Himalayan | *Cotoneaster simonsii* |
| Cotoneaster, Hollyberry | *Cotoneaster bullatus* |
| Cotoneaster, Small-leaved | *Cotoneaster microphyllus* |
| Creeper, False Virginia | *Parthenocissus inserta* |
| Creeper, Virginia | *Parthenocissus quinquefolia* |
| Dewplant, Purple | *Disphyma crassifolium* |
| Fanwort (or Carolina Water-Shield) | *Cabomba caroliniana* |
| Fern, Water | *Azolla filiculoides* |
| Fig, Hottentot | *Carpobrotus edulis* |
| Garlic, Three-cornered | *Allium triquetrum* |
| Hogweed, Giant | *Heracleum mantegazzianum* |
| Hyacinth, Water | *Eichhornia crassipes* |
| Kelp, Giant | *Macrocystis angustifolia* |
| Kelp, Giant | *Macrocystis integrifolia* |
| Kelp, Giant | *Macrocystis laevis* |
| Kelp, Giant | *Macrocystis pyrifera* |
| Kelp, Japanese | *Laminaria japonica* |
| Knotweed, Giant | *Fallopia sachalinensis* |
| Knotweed, Hybrid | *Fallopia japonica x Fallopia sachalinensis* |
| Knotweed, Japanese | *Fallopia japonica* |

| | |
|---|---|
| Leek, Few-flowered | *Allium paradoxum* |
| Lettuce, water | *Pistia stratiotes* |
| Montbretia | *Crocosmia x crocosmiiflora* |
| Parrot's Feather | *Myriophyllum aquaticum* |
| Pennywort, Floating | *Hydrocotyle ranunculoides* |
| Potato, Duck | *Sagittaria latifolia* |
| Primrose, Floating Water | *Ludwigia peploides* |
| Primrose, Water | *Ludwigia grandiflora* |
| Primrose, Water | *Ludwigia uruguayensis* |
| Rhododendron | *Rhododendron ponticum* |
| Rhododendron | *Rhododendron ponticum x Rhododendron maximum* |
| Rhubarb, Giant | *Gunnera tinctoria* |
| Rose, Japanese | *Rosa rugosa* |
| Salvinia, Giant | *Salvinia molesta* |
| Seafingers, Green | *Codium fragile* |
| Seaweed, Californian Red | *Pikea californica* |
| Seaweed, Hooked Asparagus | *Asparagopsis armata* |
| Seaweed, Japanese | *Sargassum muticum* |
| Seaweeds, Laver (except native species | *Porphyra spp (except P. amethystea, P. leucosticte, P. linearis, P. miniata, P. purpurea & P. umbilicalis)* |
| Stonecrop, Australian Swamp (or New Zealand Pigmyweed) | *Crassula helmsii* |
| Wakame | *Undaria pinnatifida* |
| Waterweed, Curly | *Lagarosiphon major* |
| Waterweeds | *All species of the genus Elodea.* |

## Diffiniadau sy'n ymwneud â rhywogaethau

Ystyr "rhywogaeth" yw unrhyw fath o anifail neu blanhigyn.

Mae rhywogaeth yn "oresgynnol" os yw'n debygol y byddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar un o'r canlynol, os na chaiff ei reoli:

a) bioamrywiaeth,
b) buddiannau amgylcheddol eraill; neu
c) fuddiannau cymdeithasol neu economaidd.

Mae rhywogaeth yn "estron":

a) os yw wedi'i rhestru yn Rhan 1 neu 2 o Atodlen 9, neu
b) yn achos rhywogaeth anifail, os yw'n rhywogaeth:
   - nad yw ei thiriogaeth naturiol yn cynnwys unrhyw ran o Brydain Fawr, a'i bod

- wedi'i chyflwyno i Brydain Fawr neu i'w chael ym Mrydain Fawr oherwydd gweithgarwch dynol arall.

Mae cyfeiriadau at y ffaith bod rhywogaeth yn “bresennol” ar safle yn cynnwys ei phresenoldeb ar y safle ar unrhyw gam yn ei gylch oes (er enghraifft, fel wyau neu hadau).

Nid yw rhywogaeth anifail “yn bresennol ym Mhrydain Fawr mwyach”:

a) os yw'n rhywogaeth wedi'i rhestru yn Rhan 1B o Atodlen 9, neu
b) os yw'n rhywogaeth:
    - y mae ei thiriogaeth naturiol yn cynnwys Prydain Fawr gyfan neu unrhyw ran ohoni, ac
    - nad yw'n preswylio fel arfer ym Mhrydain Fawr yn y gwyllt, nac yn ymweld â Phrydain Fawr, mwyach.

# SL(5)104 – Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru

## Cefndir a Phwrpas

Mae'r cod ymarfer hwn yn nodi sut y dylai'r darpariaethau ar gyfer cytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau a gynhwysir yn y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 gael eu cymhwyso gan Weinidogion Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

## Gweithdrefn

Dim, ond mae'n rhaid i'r cod gael ei osod gerbron y Cynulliad.

## Craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nid yw'r cod yn offeryn statudol felly nid yw'r Pwyllgor yn adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried ac adrodd ar y cod o dan:

-Reol Sefydlog 21.7 (i): fel is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Cynulliad;

-Rheol Sefydlog 21.7(v): fel mater deddfwriaethol cyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.

## Pwyntiau adrodd

Mae pennawd y cod yn datgan (ychwanegwyd pwyslais): "Sut y **Dylai** Cytundebau Rheoli Rhywogaethau a Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau gael eu cymhwyso yng Nghymru".

Mae'n ymddangos o'r teitl hwn bod y cod yn nodi sut y **dylai** cytundebau a gorchmynion o'r fath gael eu cymhwyso. Fodd bynnag, mae'r cod hefyd yn cynnwys nifer o bethau y mae'n **rhaid** eu gwneud.

Nid yw'r cod yn cynnig unrhyw gyfarwyddyd o gwmpas ystyr "dylai" a "rhaid". Yn hyn o beth, mae'r Pwyllgor yn nodi'r dull defnyddiol a fabwysiadwyd yn y Cod Rheolaeth Ariannol CCAUC drafft (a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 29 Mawrth 2017) a oedd yn egluro ystyr "rhaid" a "dylai" ac yn egluro canlyniadau methu â chydymffurfio â gofynion y cod:

> 4. Where HEFCW uses the term ‘must’, it means it is a specific legal requirement or requirement

under this Code. Institutions must comply with these requirements.

5. HEFCW uses ‘should’ for items it regards as minimum good practice, but for which there is no specific legislation or for which HEFCW is not setting a requirement under this Code; however, governing bodies must take such guidance into account. HEFCW will consider the extent to which an institution has adopted the ‘should’ provisions (or alternative, equally robust arrangements) in the Institutional Risk Review - our annual assessment of risk.

6. A summary of ‘must’ and ‘should’ provisions is provided at **Annex C**.

7. Where an institution fails, or is likely to fail, to comply with a requirement imposed by this Code, HEFCW may instigate the processes within its Statement of Intervention.

Dywed y Pwyllgor y gallai'r cod gael ei ddrafftio mewn ffordd gliriach i helpu Gweinidogion Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ddeall beth mae "dylai" yn golygu a beth mae "rhaid" yn golygu, a chanlyniadau peidio â gwneud pethau y "dylai" gael eu gwneud neu y mae'n "rhaid" eu gwneud.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**16 Mai 2017**

THE SENATE

**LEGAL AND CONSTITUTIONAL AFFAIRS COMMITTEE**

Mr Huw Irranca-Davies AM
Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

**By email only: seneddcla@assembly.wales**

Dear Mr Irranca-Davies

The Australian Senate Standing Committee on Legal and Constitutional Affairs Committee is pleased to provide the following information to the Constitutional and Legislative Affairs Committee of the Welsh Parliament, relating to the inquiry 'A stronger voice for Wales: engaging with Westminster and the devolved institutions'.

## The committee

Established as a standing committee in 1970, the Legal and Constitutional Affairs Committee (the committee) can inquire into legislation and other matters as they are referred by the Senate. The committee routinely enquires into matters associated with family law, constitutional law, criminal law, and administrative law. A number of times each year the committee also takes evidence from the Attorney-General's Department and associated agencies, and the Department of Immigration and Border Protection, as part of the Senate estimates process.

A database of all inquiries completed by this committee can be found here: http://www.aph.gov.au/Parliamentary_Business/Committees/Senate/Legal_and_Constitutional_Affairs/Completed_inquiries.

## Outline

This paper will outline the relations between the Australian Commonwealth State and Territory Governments, as well as the Commonwealth Government's inter-institutional relations in the Asia-Pacific region and beyond.

## Establishing the Commonwealth of Australia

In 1900 the British Parliament passed legislation to establish the Australian Constitution, which enabled the six then-colonies to govern themselves as the Commonwealth of Australia. The Act came into force on 1 January 1901. The British Monarch (as represented by the Governor-General) is Australia's head of state, and is

Committee Chair: Senator the Hon Ian Macdonald (LNP) Committee Secretary: Ms Toni Matulick

PO Box 6100, Parliament House, Canberra ACT 2600 Tel: (02) 6277 3560 Fax: (02) 6277 5794
Email: legcon.sen@aph.gov.au Internet: www.aph.gov.au/senate_legalcon

vested with the executive power of the Commonwealth. In practice, executive power is exercised by the Prime Minister of Australia and Cabinet, and the Governor-General acts based on their advice.

Australia's Constitution establishes the parameters for the way in which the Commonwealth Government interacts with State and Territory Governments. It establishes that the Commonwealth Government can only legislate in relation to matters set out in the Constitution (primarily in section 51). States have plenary power to legislate. Section 51(xxxvii), known as the 'referral power', enables the Parliament of any State to refer matters to the Parliament of the Commonwealth, but so that the law shall only extend to States which referred that matter, or which afterwards adopted the law in question.

## Intergovernmental relations between the Commonwealth, State and Territory Governments

The Commonwealth Government interacts with the State and Territory Governments in a number of ways. Two of the formal means by which this takes place are through meetings of the Council of Australian Governments (COAG), and the Commonwealth Grants Commission (CGC).

The CGC was established in 1933 to help address the imbalance in access to revenue sources between the States and Territories, the barriers of which were drawn up with a limited understanding of Australia's geography and natural resources. The CGC can advise the Commonwealth Government that particular States should be given Financial Assistance Grants for government services, to help ensure that citizens can access comparable levels of schooling, health care, justice and transport regardless of where they live.

COAG is the peak Australian intergovernmental forum. COAG members include the Prime Minister of Australia, the first Ministers of each State and Territory, and the President of the Australian Local Government Association. COAG typically meets twice a year to discuss matters of national significance, and other matters which require coordinated action from all Australian governments. Where COAG makes a formal agreement, this may be contained within intergovernmental agreements. Such agreements have included agreements relating to the funding of public hospitals, the sharing of criminal history information, disability insurance, counter-terrorism, and consumer law. In some instances an intergovernmental agreement may be a precursor to legislation, for example, in the case of the development of Australia's (now) national consumer law system.

As explained above, the Commonwealth Government, and State and Territory Governments may work cooperatively in order to legislate in relation to matters which require a concerted effort (for example, matters in relation to which the States have the power to legislate, but only in relation to their State alone). In such instances, the State Governments may negotiate to:

- refer their power to legislate to the Commonwealth Government so that a national scheme can be implemented; or
- agree to adopt one single piece of model legislation.

Such negotiations typically take place via the COAG forum.

## Commonwealth Government inter-institutional relations

The Commonwealth Government maintains close relationships with other nations via diplomatic channels, and through the sharing of information relating to global security, trade, and the environment.

The Commonwealth Government connects with governments and institutions in the Asia-Pacific Region (and beyond) in a number of ways, including via:

- Asia-Pacific Economic Cooperation (APEC) forum;
- Association of Southeast Asian Nations (ASEAN);
- ASEAN Regional Forum;
- Asia-Europe Meeting (ASEM)

Australia also engages with a number of other international organisations, including the United Nations, G20, Commonwealth of Nations, World Trade Organization, and OECD.

## Closing remarks

Australia's formal legal relationship with the United Kingdom differs vastly from that of Wales. While Australia retains its formal legal relationship with the United Kingdom, and the British Monarch is Australia's Head of State, in practice, the Monarch's representative the Governor-General acts on the advice of the Prime Minister and his or her Ministers. By contrast, the Welsh National Assembly and Welsh Government have gradually gained law-making powers from the British Parliament, including a recent vote in 2011 to give the National Assembly greater law-making powers.

The committee thanks the Constitutional and Legislative Affairs Committee of the Welsh Parliament for the opportunity to provide this information.

If you have further questions we would be pleased to discuss these with you. You can contact the Committee Secretary Ms Toni Matulick on +61 (02) 6277 3494 or toni.matulick@aph.gov.au.



**Senator the Hon Ian Macdonald**

**Chair**



**Senator Louise Pratt**

**Deputy Chair**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon